

Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Hydref 2025



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDCC

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
X: **@SeneddDCC**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Hydref 2025



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.

Ceir ei gylch gwaith yn www.senedd.cymru/SeneddDCC

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:

Mike Hedges AS

Llafur Cymru



Alun Davies AS

Llafur Cymru



Samuel Kurtz AS

Ceidwadwyr Cymreig



Adam Price AS

Plaid Cymru

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	5
	Diben y Bil	5
	Cylch gorchwyl y Pwyllgor	6
2.	Cymhwysedd deddfwriaethol	8
	Ein barn ni	9
3.	Sylwadau cyffredinol	11
	Cefndir a chyd-destun	11
	Datblygu'r Bil a'r angen amdano	11
	Gweithio rhynglywodraethol a llinell amser y Bil	13
	Y fframwaith strategol a deddfwriaethol cyffredinol	15
	Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth a chanllawiau	18
	Ein barn ni	19
4.	Arsylwadau penodol	21
	Rhan 1 – Amcan Amgylcheddol ac Egwyddorion Amgylcheddol	21
	Cefndir	21
	Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet	23
	Ein barn ni	28
	Rhan 2 – Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru	29
	Cefndir	29
	Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet	31
	Ein barn ni	41
	Rhan 3 - Targedau bioamrywiaeth, ac ati	43
	Cefndir	43

Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet.....	44
Ein barn ni.....	53
Atodiad 1	55

1. Cyflwyniad

Ar 2 Mehefin 2025, cyflwynodd Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (Ysgrifennydd y Cabinet), Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) (y Bil) i'r Senedd.¹

1. Ar 13 Mai 2025, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, a gosodwyd 24 Hydref 2025 fel y dyddiad cau ar gyfer ystyried a chyflwyno adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol.²

2. Gosododd Ysgrifennydd y Cabinet Femorandwm Esboniadol cysylltiedig (y Memorandwm Esboniadol)³, gan ymgorffori'r asesiad effaith rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, a chyhoeddodd ddatganiad ysgrifenedig⁴.

3. Ar 2 Mehefin 2025, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyda chopi o'r Datganiad o Fwriad Polisi, a dogfennau pellach i gynorthwyo gwaith craffu ar y Bil.⁵

4. Yn ogystal, ar 3 Mehefin 2025, fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad llafar ynghylch y Bil yn y cyfarfod llawn.⁶

Diben y Bil

5. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan mai prif ddiben y Bil:

¹ Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

² Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) sy'n ymgorffori'r Asesiad o'r Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol Memorandwm Esboniadol

⁴ Llywodraeth Cymru, Cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), 2 Mehefin 2025

⁵ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 2 Mehefin 2025

⁶ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 3 Mehefin 2025

“... yw cryfhau a gwella ein hymateb i argyfyngau hinsawdd a natur.”⁷

6. Nodir hefyd yn y Memorandwm:

“Mae'r Bil yn sefydlu rhai egwyddorion amgylcheddol ac amcan amgylcheddol. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), wrth wneud polisi, a rhai awdurdodau cyhoeddus eraill, wrth gynnal asesiad amgylcheddol strategol (SEA), gymhwyso'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.

Bydd y Bil yn sefydlu corff statudol “Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru”, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan gyfraith amgylcheddol yng Nghymru.”⁸

7. Mae enw hir y Bil yn nodi ei ddiben, sef:

“i wneud darpariaeth ynghylch egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd; i sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru gyda phwerau i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol; i wneud darpariaeth ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth; ac at ddibenion cysylltiedig.”⁹

Cylch gorchwyl y Pwyllgor

8. Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder a materion allanol sydd o fewn neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

9. Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir i'r Senedd, ein dull yw ystyried:

⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1

⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 1.2 a 1.3

⁹ Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, tudalen 1.

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys cydnawsedd â'r hawliau dynol a warchodir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw gweithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi ei dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater arall rydym o'r farn ei fod yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

10. Clywsom dystiolaeth lafar gan Ysgrifennydd y Cabinet ar 30 Mehefin 2025.¹⁰

11. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, fe wnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet gyda chwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn.¹¹ Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet i'n cwestiynau ar 12 Medi 2025¹² ac mae copi o'r llythyr hwn wedi ei gynnwys yn [Atodiad 1](#).

12. Cawsom dystiolaeth hefyd gan y Gynghrais Werdd¹³, ac rydym yn ddiolchgar iddi am gymryd rhan yn ein gwaith.

¹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025

¹¹ [Llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Cwledig](#), 9 Gorffennaf 2025

¹² [Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Cwledig](#), 12 Medi 2025

¹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Cyflwyniad LJC\(6\)-21-25 gan y Gynghrais Werdd](#), 26 Mehefin 2025

2. Cymhwysedd deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.¹⁴

13. Buom yn ystyried y Bil o dan y model pwerau cymhwysedd deddfwriaethol a gedwir, fel y'i nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

14. Mewn datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, amlinellodd y Llywydd:

"Yn fy marn i, byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Ni fyddai'r darpariaethau a ganlyn o fewn cymhwysedd oherwydd bod arnynt angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ac ni chafwyd cydsyniad o'r fath hyd yn hyn:

- *Adran 6(3) a (4) - Datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd*
- *Adran 10 - Dyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth*
- *Adran 11 - Monitro ac adrodd*
- *Adran 13 - Cyngor, canllawiau a chymorth ar gyfraith amgylcheddol*
- *Adran 14 - Hysbysiadau gwybodaeth*
- *Adran 15 - Ymchwiliadau*
- *Adran 16 - Hysbysiadau cydymffurfio*
- *Adran 17 - Hysbysiadau cydymffurfio brys*
- *Adran 18 - Adolygiad SLIAC o hysbysiadau cydymffurfio*

¹⁴ Memorandwm Esboniadol, Datganiad yr Aelod, tudalen 1

- *Adran 19 – Adolygiad yr Uchel Lys ar ôl methiant i gymryd cam gweithredu penodedig*
- *Adran 20 – Adroddiadau gwella*
- *Adran 26 – Gofynion cyfrinachedd: awdurdodau cyhoeddus*
- *Adran 33(1) (i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 6F newydd o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) – Targedau bioamrywiaeth*
- *Atodlen 2 – Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru: strategaeth.*¹⁵

15. Pan roddodd y Gweinidog dystiolaeth i ni ar 30 Mehefin 2025, cadarnhaodd ei fod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn amodol ar gydsyniad Gweinidog y Goron. Dywedodd ei fod wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a bod y broses gydsynio hon ar y gweill.¹⁶

16. Fe wnaethom holi Ysgrifennydd y Cabinet i ba raddau y cafodd hawliau dynol eu hystyried wrth baratoi'r Bil. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*“The first and important thing to say is that my view is that there are no convention rights directly engaged by this Bill. However, in the unlikely event that a provision does engage convention rights, then any interference with those rights would be justified in the context of the Bill, in that it's pursued a legitimate aim, it's necessary and it's proportionate. But I should say as well, Chair, we have, of course, undertaken a full suite of impact assessments, including equality assessments, socioeconomic duty impact assessments, and so on.”*¹⁷

Ein barn ni

17. Nodwn y dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â materion cymhwysedd deddfwriaethol.

¹⁵ Datganiad y Llywydd ar Cymhwysedd Deddfwriaethol, 2 Mehefin 2025

¹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [10]

¹⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [11]

18. Nodwn ymhellach o ddatganiad y Llywydd ar gymhwysedd deddfwriaethol, yn ei barn hi, fod angen cydsyniad Gweinidog y Goron mewn perthynas ag adrannau 6(3) a (4), 10, 11, 13 i 20, 26 a 33(1), ac Atodlen 2. Rydym yn cydnabod mai cyfrifoldeb Ysgrifennydd y Cabinet yw ceisio a chael y cydsyniad hwn.

19. Rydym yn nodi'r sylwadau a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch effeithiau'r Bil ar hawliau dynol. Fel rydym wedi ei nodi'n flaenorol¹⁸, credwn y dylid cynnwys asesiad o ymgysylltiad Bil â'r hawliau a ddiogelir gan Lys Hawliau Dynol Ewrop fel mater o drefn o fewn y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ac y dylai'r asesiad hwnnw hefyd nodi unrhyw gam a gymerwyd i wneud yr ymgysylltiad hwnnw'n gymesur. Credwn y byddai dilyn y dull hwn yn cynorthwyo Aelodau'r Senedd wrth iddynt ystyried Bil.

Casgliad 1. Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas ag effaith y Bil ar hawliau dynol, ond credwn y dylai'r Memorandwm Esboniadol, fel mater o arfer da, bob amser gynnwys sylwadau ar yr ystyriaeth a roddwyd i oblygiadau o'r fath.

¹⁸ Gweler, er enghraifft, gasgliad 1 o'n [Hadroddiad ar Fil y Cymraeg ac Addysg \(Cymru\)](#), casgliad 1 o'n [Hadroddiad ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig \(Cymru\)](#), casgliad 1 o'n [Hadroddiad ar Fil yr Amgylchedd \(Ansawdd Aer a Seinweddau\) \(Cymru\)](#), a chasgliad 1 o'n [Hadroddiad ar y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol \(Cymru\)](#).

3. Sylwadau cyffredinol

Cefndir a chyd-destun

20. Yng nghyd-destun y Bil hwn, mae llywodraethiant amgylcheddol yn cyfeirio at system atebolrwydd, lle mae gweithredu a chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus yn cael ei fonitro, ei wella a (lle bo angen) ei orfodi gan gorff annibynnol neu 'gorff gwarchod'.¹⁹

21. Mae system llywodraethiant amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd, a oedd yn arfer bod yn gymwys yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys monitro ac adrodd ar weithredu cyfraith amgylcheddol, dull o gael cwynion gan ddinasyddion, a chymryd camau gorfodi pan fydd cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei thorri.

22. Mae cyrff llywodraethiant amgylcheddol domestig statudol wedi eu sefydlu ar gyfer gwledydd eraill y Deyrnas Unedig ers iddi adael yr Undeb Ewropeaidd:

- Sefydlwyd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gyfreithiol gan *Ddeddf yr Amgylchedd 2021*, a
- Sefydlwyd Safonau Amgylcheddol yr Alban gan *Ddeddf Ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021*.

Datblygu'r Bil a'r angen amdano

23. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod y rhan fwyaf o gyfraith amgylcheddol yng Nghymru (a gweddill y Deyrnas Unedig) dros y deugain mlynedd diwethaf wedi deillio o'r Undeb Ewropeaidd, ac mae'n esbonio'r trefniadau deddfwriaethol trosiannol a roddwyd ar waith i reoli'r ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd.²⁰

24. Wrth sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru fel corff statudol i ddarparu goruchwyliaeth strategol o gydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru â chyfraith amgylcheddol, dywed Ysgrifennydd y Cabinet yn y Memorandwm Esboniadol:

"Mae'r oruchwyliaeth a ddarperir gan y corff yn deillio o ymadawiad y DU â'r UE, a adawodd fwch yn yr oruchwyliaeth

¹⁹ Ymchwil y Senedd, Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Crynodeb o'r Bil, Mehefin 2025

²⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.58 i 3.66

a ddarperir gan y Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.”²¹

25. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn cyfeirio at benodi Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro i Gymru (IEPAW) i reoli materion cyfraith amgylcheddol nes bod Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn gwbl weithredol, gan ddatgan:

“Mae cylch gwaith yr IEPAW yn gyfyngedig o gymharu â chwmpas arfaethedig SLIAC ond mae'n darparu mecanwaith dros dro ar gyfer goruchwyllo ac argymhellion. Mae'r Bil hefyd yn amlinellu dyletswydd SLIAC i gydweithredu â chyrff goruchwyllo amgylcheddol eraill yn y DU, megis Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) ac Environmental Standards Scotland (ESS), gan sicrhau bod materion amgylcheddol trawsffiniol yn cael eu trin ar y cyd.

I grynhoi, mae'r Bil yn ceisio cywiro'r bwlch goruchwyllo a adawyd gan ymadawiad y DU â'r UE, gan gryfhau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru drwy sefydlu SLIAC. Ei nod yw gwella effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol drwy sicrhau cydymffurfiaeth, darparu goruchwyliaeth strategol a meithrin cydweithrediad ymysg awdurdodau cyhoeddus a chyrff amgylcheddol.”²²

26. Mae absenoldeb egwyddorion amgylcheddol yn y llyfr statud yng Nghymru hefyd yn cael ei nodi gan Ysgrifennydd y Cabinet yn y Memorandwm Esboniadol. Dywed:

“Bwriad Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol nawr yw ymgorffori egwyddorion amgylcheddol i ateb ystod o heriau a chyfleoedd polisi, ac sy'n ystyried newidiadau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE, fel bod egwyddorion amgylcheddol yn cael eu gweithredu'n glir ac yn effeithiol ar sail statudol unwaith y daw'r Ddeddf i rym. Bydd hyn yn darparu sylfaen a fframwaith strategol i lunio polisiâu, ac asesiad amgylcheddol strategol, a fydd yn helpu i gryfhau'r

²¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.24

²² Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.28 i 3.29

ymateb i ystod o faterion polisi pwysig, gan gynnwys yn enwedig yr argyfyngau hinsawdd a natur”.²³

Gweithio rhynglywodraethol a llinell amser y Bil

27. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet pa drafodaethau yr oedd wedi eu cael â Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn perthynas â'r Bil, ac at ba ddiben. Dywedodd wrthym:

“We’ve had extensive discussions with UK and Scottish Governments on the Bill, especially in respect of the establishment of the Office of Environmental Governance Wales, because, as you know, they have been ahead of us slightly with their bodies. So, we’ve been keen to learn lessons and what we might do differently in a Welsh context.

There have been some pitfalls, I’ve got to say, that they’ve experienced, so we’ve been able to learn from them (...) we also have something tailored to the unique Welsh legislative landscape. (...)

Specifically, we’ve engaged on the development of the biodiversity targets as well, to discuss the approaches and how they’re set out in legislation. We’ve compared specific targets. Again, we’ve looked at lessons learned. (...) We’ve engaged with the Wales Office. We provide technical briefings to representatives from the UK, Scottish and Northern Ireland Governments as well. So, I’m really pleased to say it’s been extensive and over quite a sustained period as well.”²⁴

28. Fe wnaethom hefyd archwilio gydag Ysgrifennydd y Cabinet pam y bu oedi cyn cyflwyno'r Bil, gan nodi bod y Bil wedi ei addo yn 2018 yn y lle cyntaf. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn cydnabod rhwystredigaeth rhai rhanddeiliaid.²⁵ Dywedodd nad yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn ‘sefyll yn llonydd’ ar y mater hwn, gan ychwanegu ei bod wedi gwneud pethau yng

²³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 66

²⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [12] i [14]

²⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [19]

Nghymru na wnaed mewn gwledydd eraill.²⁶ Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at ddeddfwriaeth amgylcheddol a ddeddfwyd a datblygiadau polisi eraill.²⁷

29. Fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod gwledydd eraill wedi bod yn ymgymryd â gweithgarwch tebyg ond hefyd wedi gallu cyflwyno deddfwriaeth llywodraethol amgylcheddol ac, felly, fe wnaethom bwysu am esboniad pam ei bod wedi cymryd dwy Senedd i gyrraedd y sefyllfa hon.²⁸ Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"I agree with that. The justification is needed. But I would say part of my justification is we've taken forward pieces of legislation that they haven't done in other countries."*²⁹

30. Roedd enghreifftiau o'r ddeddfwriaeth hon a ddyfynnwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet yn cynnwys ailgyfeirio gwariant ar drafnidiaeth mewn ffordd na wnaed mewn gwledydd eraill, a blaenoriaethu diwygio amaethyddol.³⁰ Mewn ymateb i gwestiynau pellach, ychwanegodd:

*"Whilst you may not be content with my explanation, this is not an issue of capacity."*³¹

31. Pan wnaethom ofyn a oedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi dadflaenoriaethu'r Bil, atebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"No, we didn't. If we succeed, with the will of the Senedd and the committees in taking this forward, we will have made good on our commitment to deliver it now in this parliamentary term. We appreciate it is towards the end of this parliamentary term-"*³²

32. Fodd bynnag, aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud:

"... but it is deliverable. We can either go back along, 'Why has it taken so long?', or I can say to you, 'There are reasons why we

²⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [21]

²⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [21]

²⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [22]

²⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [23]

³⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [23]

³¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [24] i [25]

³² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [24] i [25]

have prioritised other work first and we are now coming to this.' It's not a capacity issue, it's prioritisation. That is always the case. And you know, as a former Minister, I need to prioritise one after the other. But we have not been standing still. We have been doing many other things, and this can be delivered within this Senedd."³³

33. Pan wnaethom geisio eglurhad ynghylch y cwestiwn a fu Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"It's more than a semantic decision, it's a very practical consideration of Government. In choosing priorities, whether it's in budgets or legislative priorities, you always put things in an order of the way you're going to work through them. But it doesn't mean you don't get to all of them, Chair. It means you get to them in a sequence."*³⁴

34. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym hefyd:

*"... as a result of bringing this forward right here right now, that means we have a distinct advantage. And the advantage is, through that engagement we've had with other Governments, we have been literally able to interrogate what's worked, what hasn't worked, what can we do better, how do we strengthen this legislation. And I would argue it's in a better place because of it. I do understand those who would say we should have been here sooner, but we haven't been standing still."*³⁵

Y fframwaith strategol a deddfwriaethol cyffredinol

35. Yn ystod ein gwaith craffu, fe wnaethom geisio deall y fframwaith strategol a deddfwriaethol troswaol sy'n bodoli yn y berthynas rhwng Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru a'r cyrff amgylcheddol presennol.

36. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet sut roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu osgoi dyblygu a gorgyffwrdd swyddogaethau rhwng Swyddfa

³³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [31]

³⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [40]

³⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [37]

Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (OEGW) a Cyfoeth Naturiol Cymru.
Dywedodd:

“... we’re confident that we have avoided that overlap within the Bill, to the extent that we’re able. We’ve included specific measures, as well, to make sure that it’s minimised (...) But it’s important to say that the OEGW is a strategic oversight body. There’s a clear separation from existing regulatory bodies and the governance body. So, this will allow the OEGW to focus specifically on monitoring and enforcing compliance with environmental law without becoming involved in the decision-making processes of other regulatory bodies.”³⁶

37. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet enghraifft mewn perthynas â hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 16 o’r Bil, gan nodi:

“... compliance notices issued by the OEGW wouldn’t be able to overturn, or overlap, as your question puts it, with planning and licensing decisions made, for example, by NRW or by local authorities or other public bodies. The Bill also, of course, has within it details of how it will exercise its functions in a way that doesn’t overlap with other bodies as well, the functions of other bodies-so the auditor general, the future generations commissioner, the information commissioner, NRW and the public services ombudsman. It’s very specific in avoiding those overlaps. Those bodies do specific functions, this does a specific function, and it is that strategic oversight and compliance with environmental law.”³⁷

38. Wrth ysgrifennu atom ar ôl y sesiwn dystiolaeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym hefyd ei bod yn bwysig peidio â chymysgu rôl oruchwylio Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru â rolau cyrff rheoleiddio.³⁸

39. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, fe wnaethom hefyd fynegi pryderon am gymhlethdod y strwythurau a’r fframwaith deddfwriaethol sy’n cael eu sefydlu, ac

³⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [92]

³⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [93]

³⁸ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025. Gweler hefyd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [98] i [110].

y gallent atal atebolrwydd.³⁹ Can hynny, fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet ysgrifennu at y Pwyllgor gydag organogram yn esbonio sut mae'r gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, prosesau, targedau ac amcanion yn cyd-fynd â'i gilydd.⁴⁰ Darparodd Ysgrifennydd y Cabinet yr wybodaeth hon yn ei lythyr dyddiedig 12 Medi 2025.⁴¹

40. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"No, no, completely not. I'll come back to the purpose of this Bill that we have in front of us, which is that strategic oversight of compliance with environmental law and policy-a strategic look at it. So, this OEGW, looking at the principles, looking at the targets, can make its decisions to say where do they think I, as a Minister, am failing in delivering the halting and reversing of biodiversity and failing in delivering good standards of environmental protection. That doesn't replicate what's been done in the agri Act with the sustainable land management principles, all four of them. It doesn't replicate, it actually dovetails with what we're doing on the well-being of future generations Act, which is referenced within this, by the way, and dovetails what we're doing with the environment Act and the section 6 duties. It actually pulls together with it.

*But I do understand what the committee is saying, from a member of the public's perspective or a farmer out in the field, if they say, 'Well, how does this Act change the way that I'm using my slurry this year going ahead, or what I'm doing with the rivers and hedgerow planting?' That's actually within the SFS, which flows from the agri Act, but all of it should be held together. What this Bill does is have strategic oversight to say, 'Are the decisions that Welsh Ministers are making actually delivering that halting and reversing biodiversity loss?' So, they're not going to set a new regulation for NRW."*⁴²

³⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [124]

⁴⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [126]

⁴¹ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025

⁴² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [133]

41. Archwiliodd y Pwyllgor gydag Ysgrifennydd y Cabinet rai enghreifftiau bywyd go iawn mewn ymgais i egluro sut byddai'r strwythurau a'r ddeddfwriaeth yn gweithio yn ymarferol ac a yw'r trefniadau'n ddigon clir. Yn ystod y drafodaeth hon, ac fel enghraifft, cyfeiriodd swyddog a oedd yn bresennol gydag Ysgrifennydd y Cabinet at waith parhaus ar lefel swyddogol sy'n ystyried y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yng nghyd-destun y Bil hwn a'r targedau y gellir eu gosod.⁴³

Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth a chanllawiau

42. Mae'r Bil yn cynnwys pum pŵer dirprwyedig sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth.

43. Mae crynodeb o'r rhain yn Nhabl 5.1 yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys pŵer i gyhoeddi datganiad (gan gynnwys canllawiau) sydd wedi ei grynhoi yn Nhabl 5.2 yn y Memorandwm Esboniadol.

44. O'r pum pŵer dirprwyedig yn y Bil, mae un yn bŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol (pŵer Harri VIII): mae paragraff 2(3) o Atodlen 1 i'r Bil yn rhoi'r modd i Weinidogion Cymru ddiwygio cyfanswm nifer aelodau anweithredol Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru drwy reoliadau.

45. Er nad yw'r pŵer dirprwyedig yn adran 29(4) o'r Bil yn bŵer Harri VIII yn llwyr, nodwn fod ei effaith yn debyg o ran sylwedd. Mae'r pŵer hwn yn rhoi'r modd i Weinidogion Cymru ddarparu bod darpariaeth o fewn y diffiniad o 'gyfraith amgylcheddol' yn y Bil (neu i'r gwrthwyneb). Er na fyddai dynodiad o'r fath drwy reoliadau yn ddiwygio'r Bil yn benodol, ei effaith fyddai ddiwygio'r Bil ymhlyg i ddileu pwnc o'r fath sydd y tu allan i gwmpas darpariaeth y Bil.

46. Yn y Datganiad o Fwriad Polisi⁴⁴ ar gyfer y pwerau is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil, noda Ysgrifennydd y Cabinet, mewn achosion o ansicrwydd neu anghytundeb, y gallai fod angen i'r llysoedd benderfynu yn y pen draw a yw darpariaeth yn gyfystyr â 'chyfraith amgylcheddol'. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet pa asesiad sydd wedi ei wneud o effaith hyn ar y system gyfiawnder, ac ymatebodd:

"Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder, y cytunwyd arno gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn adlewyrchu ein barn

⁴³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [138]

⁴⁴ Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi

*mai ychydig iawn o effaith fydd ar y system gyfiawnder.
Bwriedir i atgyfeiriadau i'r llys, gan gynnwys ynghylch a yw
darpariaeth yn gyfystyr â chyfraith amgylcheddol, gael eu
gwneud fel dewis olaf unwaith y bydd yr holl ddulliau eraill o
fynd i'r afael â methiant wedi'u harchwilio, gan gynnwys
datrysiad anffurfiol (cyngor ac arweiniad), hysbysiadau
gwybodaeth a hysbysiadau cydymffurfio, yn ogystal ag
adroddiadau gwella.”⁴⁵*

Ein barn ni

47. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch datblygiad y Bil ac amseriad ei gyflwyno i'r Senedd. Yn benodol, rydym yn cydnabod datganiadau Ysgrifennydd y Cabinet nad yw Llywodraeth Cymru wedi 'bod yn sefyll yn llonydd' yn y maes hwn ac wedi bwrw ymlaen â datblygiadau deddfwriaeth a pholisi eraill, gan gynnwys ailgyfeirio gwariant ar drafnidiaeth a diwygio amaethyddol.

48. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan yr esboniadau a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet, ac nid ydym o'r farn bod yr oedi cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth sylfaenol bwysig hon wedi ei hesbonio'n ddigonol i'r Senedd.

49. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r deddfwriaeth yn y Senedd hon. Fodd bynnag, er y bydd yr amcan a'r egwyddorion amgylcheddol yn dod i rym ddau fis ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, ac y bydd dyletswydd Gweinidogion Cymru i roi sylw arbennig i'r egwyddorion hynny yn dechrau ar ôl chwe mis, mae'n bosibl na fydd Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn weithredol am hyd at ddwy flynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol, ac mae'r rhan fwyaf o ddarpariaethau eraill yn y Bil i'w cychwyn drwy Orchymyn yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru.

50. Ar ben hynny, ac yn benodol o ran gosod targedau bioamrywiaeth, nid yw'r Bil ei hun yn gosod targedau, gyda'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n gosod targedau mewn pedwar maes blaenoriaeth o fewn tair blynedd i'r Cydsyniad Brenhinol.

⁴⁵ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 9

Casgliad 2. Er gwaethaf datganiadau Ysgrifennydd y Cabinet, rydym o'r farn, heb dystiolaeth gadarn i'r gwrthwyneb, ei bod yn ymddangos bod y Bil wedi cael ei ddad-flaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru.

51. Rydym hefyd yn nodi esboniadau Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y ddeddfwriaeth newydd hon a'r fframwaith strategol a deddfwriaethol cyffredinol. Rydym yn rhoi sylwadau pellach ar yr egwyddorion amgylcheddol a Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn y bennod nesaf.

52. Yn olaf, nodwn fod y Bil yn cynnwys pum pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a gorchmynion, a bod un ohonynt yn bŵer Harri VIII, ac un pŵer yn golygu y bydd gofyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad. Yn amodol ar ein sylwadau ar bwerau a darpariaethau penodol yn y Bil, rydym yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth. Rydym yn trafod pwerau dirprwyedig penodol yn y Bil yn fanylach ym Mhennod 4 o'n hadroddiad.

4. Arsylwadau penodol

Rhan 1 – Amcan Amgylcheddol ac Egwyddorion Amgylcheddol

Cefndir

53. Mae Rhan 1 o'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhai awdurdodau cyhoeddus eraill i roi sylw i egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd. Yn y Memorandwm Esboniadol, dywed Ysgrifennydd y Cabinet:

“Mae'r dyletswyddau hyn yn hanfodol i gyfrannu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd, yn enwedig rhag effeithiau'r argyfyngau hinsawdd a natur.”⁴⁶

54. Mae adran 2 yn diffinio “egwyddorion amgylcheddol” penodol at ddibenion Rhan 1, sef:

- yr egwyddor ragofalus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r amgylchedd;
- yr egwyddor y dylid cymryd camau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol;
- yr egwyddor y dylid cywiro difrod amgylcheddol fel mater o flaenoriaeth yn y tarddle;
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

55. Dywedir yn y nodiadau esboniadol ar y Bil:

“Mae'r egwyddorion hyn wedi eu llywio gan nifer o ffynonellau, gan gynnwys cytundebau rhyngwladol a'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r dehongliad o'r egwyddorion hyn yn fwyfwy sefydledig ac mae'n parhau i ddatblygu mewn gwahanol gyd-destunau, gyda rhyngweithiadau cymhleth rhwng ymrwymïadau rhyngwladol, cyfraith ryngwladol, deddfwriaeth ddomestig a chyfraith achos, er enghraifft. Bydd y datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r

⁴⁶ Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), paragraff 4

amgylchedd (adran 6) yn darparu rhagor o fanylion ar ddehongli a chymhwyso'r egwyddorion.”⁴⁷

56. Mae adran 3(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, at ddibenion cyfrannu at yr amcan amgylcheddol, roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth wneud polisi mewn perthynas â Chymru sy'n cael unrhyw effaith (neu a allai gael unrhyw effaith) ar yr amgylchedd, ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi o'r fath. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol a'r datganiad integreiddio diogelu'r amgylchedd, neu'r datganiad diwygiedig, a gyhoeddir o dan adran 6 wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd yn is-adran (1). Mae is-adran (3) yn diffinio “polisi”, “llunio polisi” a “Chymru” at ddibenion adran 3.

57. Mae is-adran (1) o adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i rai awdurdodau cyhoeddus, er mwyn cyfrannu at yr amcan amgylcheddol, roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth gyflawni rhai swyddogaethau. Mae is-adran (2) yn darparu bod y ddyletswydd yn is-adran (1) yn gymwys i unrhyw swyddogaeth mewn cysylltiad ag asesu cynlluniau a rhaglenni sy'n ymwneud â Chymru yn unig neu unrhyw ran o Gymru o dan Reoliadau Asesu Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.⁴⁸ Mae is-adran (3) yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i ganllawiau a gynhwysir yn yr egwyddorion amgylcheddol ac sy'n integreiddio datganiad diogelu'r amgylchedd (neu ddatganiad diwygiedig) a gyhoeddwyd o dan adran 6 wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd yn is-adran (1). Mae is-adran (4) yn diffinio “awdurdod cyhoeddus” at ddibenion adrannau 5 a 6.

58. Mae adran 6 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi “datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd”. Yn benodol, mae is-adrannau (2) a (3) yn darparu bod yn rhaid i'r datganiad gynnwys canllawiau i Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yn y drefn honno ynglŷn â'r dyletswyddau a osodir arnynt.

59. Mae adran 7 yn nodi'r gofynion gweithdrefnol ac ymgynghori mewn cysylltiad â llunio a chyhoeddi'r datganiad sy'n ofynnol o dan adran 6. Yn benodol, mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron y Senedd gopi o'r datganiad (neu'r datganiad diwygiedig) a gyhoeddwyd o dan

⁴⁷ Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), paragraff 19

⁴⁸ O.S. 2004/1656 (W. 170)

adran 6 a dogfen sy'n rhoi manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o dan is-adran (1) gan grynhoi'r sylwadau a ddaeth i law ac ymateb Gweinidogion Cymru iddynt.

Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

Yr egwyddorion amgylcheddol a'r datganiad adran 6

60. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau bwriadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r pedair egwyddor amgylcheddol a'r datganiad sy'n ofynnol dan adran 6 o'r Bil. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"... these principles are very well grounded, very well established, and they are understood and operate within not just a legal perspective, but also in an operational perspective. The precautionary principle doesn't stop everything going, but the fact that it's one of the fundamental principles means that you have to have that regard, or, in the case of this Bill, in some situations, special regard to it in terms of environmental protection."*⁴⁹

61. Pan wnaethom holi Ysgrifennydd y Cabinet ar faterion sy'n deillio o wahanol ddehongliadau o'r egwyddorion ers eu hesblygiad, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"this is the clarity that will come through the [section 6] statement that underpins this. So, as the explanatory notes explain, we have a statement that will improve understanding of the interpretation and application of the principles. (...)

So, in practice, the statement will include in practice the interpretation of these principles. So, the statement should be used to explain how the principles apply in different circumstances, what they mean in those circumstances, and that, as you say, is what is set out in section 6(1) to 6(3), that the statement must include some certain specific matters relating to interpretation and the application of the duties imposed on Welsh Ministers. So, this covers, for example, how the environmental principles relate to each other, the duty to integrate environmental protection, and how the

⁴⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [44]

environmental principles and the duty to integrate environmental protection relate to the environmental objective. It also needs to set out detailed guidance to NRW and those certain other public bodies in connection with the duties imposed and how they should comply with those duties and guidance. So, this is what will help, actually, public authorities and other interested parties to understand how those principles should be applied.”⁵⁰

62. Fe wnaethom hefyd wahodd Ysgrifennydd y Cabinet i egluro a rhoi ymrwymïadau ynghylch sut byddai paratoi a chytuno ar y datganiad yn gweithio yn ymarferol a sut byddai'r Senedd yn rhan o'r broses. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“So, first of all it's important to say that the Bill actually lays out some detailed procedural requirements for the preparation and publication of the statement, or indeed a revised statement as well. And it requires Welsh Government Ministers to consult Natural Resources Wales, the Future Generations Commissioner for Wales, OEGW and other persons as they see appropriate. We have to-Welsh Ministers have to-lay before the Senedd a copy of that statement or revised statement as well. It's got to have a document giving details of the consultation carried out, summarising the representations received and Welsh Ministers' response to them. This will enable that essential Senedd scrutiny of the statement or revised statement. But I should say as well, if the Senedd or any of the committees want to actually input into that process-the preparation of the policy statement during the consultation process-they are of course free to do so, whether it's this committee or the Climate Change, Environment and Infrastructure Committee or other committees, they can input directly into that. So, it's very transparent.”⁵¹

63. Fe wnaethom fynd ar drywydd y mater o gyfranogiad y Senedd a'r broses seneddol a fyddai'n gysylltiedig â chytuno ar y datganiad pan wnaethom

⁵⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [45] i [48]

⁵¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [50]

ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl ein sesiwn dystiolaeth. Yn ei lythyr dyddiedig 12 Medi, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Mae'r Bil yn nodi gofynion gweithdrefnol manwl ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r datganiad, neu ddatganiad diwygiedig, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â CNC, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, SLIAC a phobl eraill y maent yn eu hystyried yn briodol.

Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd osod gerbron y Senedd gopi o'r datganiad, neu'r datganiad diwygiedig, a dogfen sy'n rhoi manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ac sy'n crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law ac ymateb Gweinidogion Cymru iddynt. Dyna sut y bydd y Senedd yn gallu craffu ar y datganiad neu'r datganiad diwygiedig.

Mae'r darpariaethau hyn yn ddigonol i ddarparu tryloywder, atebolrwydd ac ymgysylltiad angenrheidiol, yn y Senedd a chydag eraill, a chefnogi datblygiad effeithiol y datganiad.

Nid ydym yn credu ei bod yn angenrheidiol, nac yn briodol, gwneud y datganiad hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn benodol y Senedd. Bydd y datganiad yn cynnwys polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer CNC ac awdurdodau cyhoeddus eraill. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol “roi sylw” i'r datganiad, neu i ganllawiau yn y datganiad, wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ran 1 o'r Bil i roi'r egwyddorion ar waith ac integreiddio diogelu'r amgylchedd. Yn nodweddiadol, nid yw mathau eraill o ganllawiau statudol yn destun craffu seneddol, er enghraifft, canllawiau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (adrannau 14, 22(2) a 51).

Serch hynny, byddai gen i ddiddordeb mewn clywed barn y Pwyllgor ar sut y gallai proses y Senedd ar gyfer y datganiad weithio. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn rhybuddio y gallai unrhyw ofynion ychwanegol arwain at oedi o ran gallu Llywodraeth Cymru i gwblhau a chyhoeddi'r datganiad cyn i'r darpariaethau gael eu cychwyn, sydd ar hyn o bryd i fod i ddigwydd chwe mis ar ôl cydsyniad brenhinol. Os ychwanegir

prosesau a gweithdrefnau pellach, efallai y bydd angen ymestyn yr amserlen hon i wneud iawn am hynny.”⁵²

Diffinio “gwneud polisi”

64. Mae Adran 3 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw arbennig i'r egwyddorion wrth “wneud polisi”, ond nid yw'r Bil yn nodi'n gynhwysfawr beth a olygir wrth ddefnyddio'r ymadrodd ‘gwneud polisi’. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

“... this would include things like legislative proposals, things like policy statements, things like strategies and frameworks, ministerial statements setting out the Government's formal position on an issue, and frankly other formal policy documents that set out a change in approach to an established policy position.”⁵³

65. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud bod y dehongliad yn eithaf eang yn fwriadol, fel bod modd gafael yn yr holl waith o ddatblygu polisi ac adolygu polisiau⁵⁴.

66. Pan ofynnwyd iddo a oedd yn fodlon bod y penderfyniad i fod yn fwriadol eang yn rhoi digon o sicrwydd cyfreithiol, ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“... I think there's a good understanding of 'making policy' and the further definition in the Bill about developing, adopting and revising policies is pretty clear as well. But I think maintaining that breadth allows then, in the establishment of this Bill, the Welsh Ministers to be quite firm and forthright in the way that they seek to apply their duties... (...).

It's very similar to those that are applied in the UK and the Scottish Bills as well. It seems to be working for them.”⁵⁵

⁵² Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, tudalen 2

⁵³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [56]

⁵⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [56]

⁵⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [58] a [59]

Ystyr “sylw arbennig”, “sylw”, a “sylw dyledus”

67. O dan adran 3 o'r Bil, rhaid i Weinidogion Cymru roi “sylw arbennig” i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi. Yn yr un modd, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd roi “sylw arbennig” wrth wneud polisi, yn unol ag adran 4 o'r Bil. Fodd bynnag, mae adran 5 yn nodi mai dim ond “rhoi sylw” i'r egwyddorion wrth gyflawni swyddogaethau mewn cysylltiad ag asesu cynlluniau a rhaglenni sy'n ymwneud â Chymru neu unrhyw ran o Gymru yn unig o dan Reoliadau Asesu Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

68. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet egluro sut mae “sylw arbennig” yn wahanol i “roi sylw” a “sylw dyledus”. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“... there is a specific reason. This is one of the points of difference and one of the learnings that we have taken from other legislation. So, the ‘special regard’ approach, which doesn’t feature in other pieces of legislation, means that Welsh Ministers and NRW have that higher level in giving regard to environmental principles. So, we must give-and again, it’s a rod for our back here-considerable importance and weight to the principles when we are making policy. You can contrast this, Sam, with the much more regularly used ‘due regard’ approach, where the weight to be given to factors is a matter for the decision maker. For example, on careful consideration, the decision maker could say in a particular case they can be given little, if any, weight. Here, we have to have special regard. (...)

... it emphasises the importance of an effective response to the nature and climate emergencies. It aims at a higher level of environmental protection. That’s why it’s a very deliberate choice of legalistic words here.”⁵⁶

69. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ymhellach y byddai'n rhaid i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru benderfynu a yw Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi sylw arbennig i'r egwyddorion, gan ddweud bod hynny'n dangos pa mor bwysig yw hi iddynt wneud y penderfyniadau ar hyn.⁵⁷

⁵⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [61] a 62]

⁵⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [64]

70. Pan wnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl ein sesiwn dystiolaeth, fe wnaethom ofyn pa brosesau fydd yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru i nodi polisi sy'n cael (neu a allai gael) unrhyw effaith ar yr amgylchedd, a sut bydd Gweinidogion Cymru yn mynd ati i roi sylw arbennig i'r egwyddorion. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"Mae'r ddyletswydd yn gymwys yn eang ar draws yr ystod lawn o bolisïau Llywodraeth Cymru, nid polisïau amgylcheddol yn unig.

O ystyried effaith y ddyletswydd, mae'n bwysig bod cwmpas y ddyletswydd yn glir. Cyflawnir hyn drwy egluro bod y ddyletswydd yn gymwys pryd bynnag y bydd polisi'n cael, neu'n gallu cael, unrhyw effaith ar yr amgylchedd.

Yn ymarferol, ychydig iawn o bolisïau na fyddai'n cael unrhyw effaith o gwbl ar yr amgylchedd..."⁵⁸

Ein barn ni

71. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch Rhan 1 o'r Bil.

72. Nodwn, er ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi sut mae'r egwyddorion yn ymwneud â'i gilydd, a sut maent yn ymwneud â'r amcan amgylcheddol, nid oes gofyniad penodol i nodi'r dehongliad o'r egwyddorion.

73. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ddileu'r potensial o ansicrwydd ac i ddarparu eglurder a sicrwydd ar ddehongliad yr egwyddorion. Rydym yn nodi barn Ysgrifennydd y Cabinet, bod y pedair egwyddor amgylcheddol a gynhwysir yn y Bil hwn wedi eu seilio'n dda, wedi eu sefydlu a'u deall. Ond nid ydym yn credu bod y farn hon yn adlewyrchu esblygiad dehongliad yr egwyddorion hyn ar lefel ryngwladol, yr Undeb Ewropeaidd ac yn ddomestig dros sawl degawd a'r cwmpas i ganlyniadau gwahanol neu anfwriadol ddeillio o hyn.

74. Gan hynny, credwn y dylid diwygio'r Bil i fewnosod gofyniad penodol i nodi sut dylid dehongli'r egwyddorion yn y datganiad. Byddai hyn yn gwarantu bod y

⁵⁸ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 2

datganiad yn cynnwys cyfarwyddyd clir ar sut dylid dehongli a chymhwyso'r egwyddorion, gan adael dim lle i amheuaeth yn hyn o beth.

Argymhelliad 1. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu diagram llif i'r Pwyllgor sy'n esbonio'n fanwl sut mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld bod adran 3 o'r Bil yn cael ei chymhwyso gan Weinidogion Cymru mewn cyd-destun go iawn. Yn benodol, dylai'r esboniad gynnwys y prosesau sydd ar waith i nodi polisiâu perthnasol, asesu a yw polisi yn cael (neu y gallai gael) unrhyw effaith ar yr amgylchedd, a chymhwyso'r ddyletswydd i roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol.

Argymhelliad 2. Dylid diwygio'r Bil i gynnwys darpariaeth dehongli sy'n esbonio, gan ddefnyddio rhestr nad yw'n gynhwysfawr, beth yw ystyr "gwneud polisi" yn adran 3 o'r Bil.

Argymhelliad 3. Dylid diwygio'r Bil er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi'n benodol sut dylai'r pedair egwyddor amgylcheddol gael eu dehongli yn natganiad adran 6.

Argymhelliad 4. Dylid diwygio'r Bil i ddarparu na ddylid cyhoeddi datganiad a osodwyd o dan adran 7(2) o'r Bil ac na ddylai ddod i rym os yw'r Senedd yn penderfynu na ddylid cyhoeddi'r canllawiau o fewn 40 diwrnod i'w osod.

Argymhelliad 5. Dylid diwygio'r Bil i sicrhau bod yn rhaid i'r datganiad a baratowyd o dan adran 6 o'r Bil allu dod i rym o fewn 6 mis i'r Cydsyniad Brenhinol, gan ystyried y cyfnod atal o 40 diwrnod yn Argymhelliad 4.

Rhan 2 - Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

Cefndir

75. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae Rhan 2 o'r Bil yn sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol annibynnol, sef Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ("SLIAC") i ddarparu goruchwyliaeth strategol ar ofynion ar awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol; gwneud cyfraith amgylcheddol effeithiol a gweithredu a chymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol. Dywedir yn Nodiadau Esboniadol y Bil:

"Bydd SLIAC yn dwyn Llywodraeth Cymru, ac awdurdodau cyhoeddus eraill, i gyfrif mewn perthynas â'r amgylchedd yng

*Nghymru mewn ffordd sy'n debyg i'r hyn sy'n digwydd yng
ngweddill y Deyrnas Unedig.”⁵⁹*

76. Mae adran 8 o'r Bil yn sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru fel corff corfforaethol ac yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru.

77. Mae adran 9 yn darparu bod yn rhaid i SLIAC arfer ei swyddogaethau at y diben cyffredinol o gyfrannu at yr amcan amgylcheddol mewn modd diduedd, gwrthrychol, cymesur a thryloyw. Mae adran 10 (Dyletswydd i baratoi a chyhoeddi strategaeth) yn ei gwneud yn ofynnol i SLIAC lunio a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau. Mae hefyd yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr hyn mae'n rhaid i'r strategaeth ei chynnwys a gofynion gweithdrefnol.

78. Mae adrannau 11 i 28 o'r Bil yn nodi'r gofynion i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru oruchwylio cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol, a gweithredu a chymhwyso cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, gan gynnwys llunio cyfraith amgylcheddol neu ei heffeithiolrwydd.

79. Mae adran 29 yn diffinio 'cyfraith amgylcheddol' at ddibenion Rhan 2 o'r Bil. Fe'i diffinnir drwy gyfeirio at ddarpariaeth ddatganoledig, sydd yn y bôn yn golygu deddfwriaeth sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd sydd wedi ei gwneud, neu y gellid ei gwneud, gan y Senedd. Yn y Datganiad o Fwriad Polisi, dywed Ysgrifennydd y Cabinet fod ystyr "cyfraith amgylcheddol":

“... yn ddiffiniad arwyddocaol gan ei fod yn gosod cwmpas swyddogaethau SLIAC sy'n cael eu diffinio drwy gyfeirio at gydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal â ph'un a yw cyfraith amgylcheddol wedi'i gwneud, ei gweithredu a'i chymhwyso'n effeithiol.”⁶⁰

80. Mae adran 29(4) yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau, yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu darpariaethau datganoledig sy'n dod o fewn y diffiniad o gyfraith amgylcheddol neu nad ydynt yn dod o fewn y diffiniad o gyfraith amgylcheddol. Yn y Datganiad

⁵⁹ Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), paragraff 5

⁶⁰ Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi

o Fwriad Polisi, dywed Ysgrifennydd y Cabinet bod y pŵer yn angenrheidiol er mwyn:

“... sicrhau bod modd diogelu'r diffiniad o gyfraith amgylcheddol at y dyfodol a'i ddiweddarau gyda'r datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â pholisi rhyngwladol a domestig.”⁶¹

81. Mae adran 30 y Bil yn diffinio “awdurdod cyhoeddus” at ddibenion Rhan 2, tra bod adran 31 yn egluro bod cyfeiriadau at “effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol” yn Rhan 2 o'r Bil yn gyfeiriadau at ei heffeithiolrwydd o ran cyfrannu at ddiogelu'r amgylchedd.

82. Mae adran 32 yn egluro bod cyfeiriadau at “methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol” yn Rhan 2 o'r Bil yn gyfeiriadau at yr awdurdod cyhoeddus perthnasol yn arfer ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n groes i gyfraith amgylcheddol, neu sy'n methu ag arfer ei swyddogaethau pan fo'r methiant yn groes i gyfraith amgylcheddol.

Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

Annibyniaeth Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

83. Yn ein llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet ar 9 Gorffennaf, fe wnaethom ofyn am ei farn ar yr awgrymiadau a wnaed gan y Gynghrair Werdd mewn tystiolaeth ysgrifenedig⁶² i ni y dylid diwygio'r Bil:

- i. i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i barchu annibyniaeth SLIAC (gweler paragraff 17 o Atodlen 1 i *Ddeddf yr Amgylchedd y Deyrnas Unedig 2021*).
- ii. i egluro nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer cyfarwyddo mewn perthynas â SLIAC (yn debyg i baragraff 1 o Atodlen 1 i *Ddeddf Ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (yr Alban) 2021*).

84. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“i. Credwn nad oes angen cynnwys y datganiad hwn. Mae'r Bil eisoes yn darparu ar gyfer annibyniaeth SLIAC ac ni fyddai

⁶¹ Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi, tudalen 3

⁶² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, LJC(6)-21-25 Cyflwyniad gan y Gynghrair Werdd, 26 Mehefin 2025

datganiad ar hyd y llinellau hyn yn newid effaith y Bil gan ein bod o'r farn bod y mesurau ymarferol manwl rydym wedi'u rhoi ar waith drwy gydol y Bil yn dangos annibyniaeth SLIAC... Serch hynny, rydym yn cydnabod y gall datganiad cadarn sy'n cadarnhau annibyniaeth SLIAC, fel y darperir ar ei gyfer yn y Bil eisoes, weithiau fod yn ddefnyddiol a byddwn yn croesawu safbwyntiau'r pwyllgor ar hyn i lywio ein barn wrth symud ymlaen.

ii. Fel gyda chwestiwn (i), nid ydym o'r farn bod angen gwneud darpariaeth benodol nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer cyfarwyddo. Dyma effaith y Bil mewn unrhyw achos. Nid yw'r Bil yn darparu unrhyw bŵer cyfarwyddo i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag SLIAC, a hynny'n fwriadol, ac nid ydym o'r farn y gellid cyflwyno pŵer o'r fath. Ymhellach, mae yna achosion lle mae Gweinidogion Cymru wedi cael pŵer i gyfarwyddo. Er enghraifft, mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn caniatáu yn benodol i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i CNC ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau. Ni all Gweinidogion Cymru ddweud wrth SLIAC beth i'w wneud (neu beth i beidio â gwneud) gan nad oes darpariaeth i'w galluogi i wneud hynny. Felly, rydym o'r farn na fyddai angen egluro nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer cyfarwyddo mewn perthynas ag SLIAC ar wyneb y Bil.”⁶³

Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

85. Yn unol â pharagraff 8(2) o Atodlen 1 i'r Bil, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phwyllgor yn y Senedd cyn penodi cadeirydd a dirprwy gadeirydd SLIAC. Yn ein llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet ar 9 Gorffennaf fe wnaethom geisio eglurder ynghylch y cwestiwn ai'r bwriad oedd i hwn fod yn wrandawriad cyn penodi ac, os felly, pam nad yw hynny'n cael ei nodi ar wyneb y Bil. Fe wnaethom ofyn hefyd i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yn bwriadu ychwanegu'r rolau hyn at y rhestr o swyddi sy'n destun gwrandawiadau cyn penodi o dan y protocol y

⁶³ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 4

cytunwyd arno rhwng y Llywydd a Llywodraeth Cymru. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

“Mae'r gofyniad ymgynghori hwn yn cyflawni rôl debyg i'r weithdrefn gwrandawriad cyn penodi sydd ar waith ar gyfer rolau cyhoeddus arwyddocaol eraill, megis Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dylai'r pwyllgor nodi bod yr iaith a ddefnyddir yn debyg i'r iaith yn adran 17(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, nad yw'n nodi bod rhaid cynnal 'gwrandawriad cyn penodi' ond sy'n gosod gofyniad clir ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r pwyllgor perthnasol.

Ein bwriad yw ychwanegu'r rolau hyn at y rhestr o swyddi sy'n destun gwrandawiadau cyn penodi o dan y protocol.

Gan nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn defnyddio'r geiriad penodol “gwrandawriad cyn penodi”, byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau pellach gan y pwyllgor os ydynt o'r farn bod y geiriad penodol hwn yn angenrheidiol yn y Bil hwn.”⁶⁴

Dyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth

86. Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer terfyn amser o ran pryd dylid cwblhau strategaeth ar gyfer Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Pan wnaethom holi Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch hyn, dywedodd:

“This comes back to the issue of independence, because we feel that it's very important to allow the OEGW to have independence on the strategy. It's wholly owned by the OEGW. So, Welsh Ministers have no role in signing off that strategy-and, by the way, this is more independent than the approach taken in England. Just to say, in England, the OEP has to have regard to guidance issued by the Secretary of State there in developing that strategy. We are hands off on this, Adam, entirely.

⁶⁴ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 5

So, in that context and with respect to OEGW's independence, we haven't put any constraints whatsoever on the strategy and when the strategy will be produced. It's for the OEGW to decide when it will bring it forward and when it's ready. However, the strategy, to be clear, will need to be finalised before its wider functions can be exercised. So, there is a clear and compelling timeline on the OEGW to get on with it. In that strategy, they will need to set out how they intend to exercise their functions, so it has to be produced, has to be formally consulted upon, before the OEGW can start to exercise their primary functions. So, actually, the timeline is in their hands and that gives them the independence, I have to say, as well, to devise the strategy and bring it forward according to the timeline they think is critical.”⁶⁵

Dechrau swyddogaethau Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

87. Bydd swyddogaethau Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn dechrau drwy Orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet egluro bwriadau Llywodraeth Cymru o ran pryd byddai Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn gwbl weithredol.

88. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“... the OEGW will be established two months after the Bill receives Royal Assent, in line with accepted conventions, alongside the powers to appoint the board, and followed by the commencement by Order of powers to develop the strategy. Then, the remaining functions will be commenced by Order. That is to make sure that the OEGW is not put under duty and obligations it can't possibly actually fulfil until it's fully operational, and then we get to the obvious question of when will it be fully operational... (...)

Based on precedent, on establishing bodies like this, it's pretty clear that, if you were going to be a great optimist, you're looking at 18 months; a realist would say 24 months. And it really is the whole back-room operations and functionality to make it happen. So, that's based on experience before. There's

⁶⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [89] a [90]

*also, by the way-. I think one of my appearances might well be in front of the Finance Committee. There's also an issue of tying up some of the back-room stuff for cost-effectiveness. We've got other bodies coming down the line, such as the disused tips authority as well, but, in the meantime, the Interim Environmental Protection Assessor for Wales proceeds with their work as well."*⁶⁶

89. Fe wnaethom atgoffa Ysgrifennydd y Cabinet o'r rhwystredigaeth ymhlith rhanddeiliaid o'r amser a gymerwyd cyn y cyflwynwyd y Bil i'r Senedd, gan ofyn a oedd hynny'n ddadl dros gyflymu'r broses i wneud Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn weithredol. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"... there are real, practical reasons why the full functionality will not be up and running as early as you might want, and that means that we have to make sure that before we impose all the obligations on the OEGW, they have everybody in place to do it, and that means bringing on the expertise, setting up the back-room functions and everything else."*⁶⁷

90. Ychwanegodd swyddog a oedd yn bresennol gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

"So, we will be looking at ways in which we can accelerate the timetable and bring it forward as quickly as possible because we absolutely recognise the frustration that lies here in the length of time this has taken, and many of the stakeholders are saying the same thing. We are working from very clear previous plans on how long these things take and the kinds of procedures that you need to go through. One of the things that's quite interesting, and we got into with the Climate Change, Environment and Infrastructure Committee, is that there is a balance here to be played between ensuring the real independence of the body and the speed of setting it up. So, one of the things that you could do in order to try and speed up the process is to set up a shadow body, but, actually, our judgment is that it is better for the independence of the body not to do that. Unfortunately, that extends the timescales

⁶⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [78] i [80]

⁶⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [82]

because it means you can't start certain things as early as you would with the shadow body, and there's a lot of concern from stakeholders as well about the independence of the body. So, it's a bit of a balancing act.”⁶⁸

Ystyr cyfraith amgylcheddol (adran 29)

91. Mae cyfraith amgylcheddol yn ddiffiniad allweddol yn y Bil. Mae'n cwmpasu deddfwriaeth sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd sydd wedi ei gwneud, neu a allai gael ei gwneud, gan y Senedd. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a yw confensiynau a chytundebau rhyngwladol ar yr amgylchedd yn dod o fewn y diffiniad o 'gyfraith amgylcheddol' o dan y Bil. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

“... mae cylch gwaith SLIAC yn gymwys i gyfraith amgylcheddol sydd wedi'i datganoli ac sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd. Mae hyn yn berthnasol i rwymedigaethau rhyngwladol lle mae'r polisi wedi'i ddatganoli.

Er enghraifft, mae confensiwn Aarhus yn gytundeb rhyngwladol cyfreithiol rwymol sydd wedi'i gadarnhau gan y DU ac sy'n sefydlu tair hawl amgylcheddol weithdrefnol graidd:

- *Mynediad at wybodaeth amgylcheddol*
- *Y cyhoedd yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau amgylcheddol*
- *Mynediad at gyfiawnder mewn materion amgylcheddol.*

O ran rhoi'r hawliau craidd hyn ar waith yng Nghymru a lle mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly darpariaeth ddatganoledig, bydd SLIAC yn goruchwyllo'r materion hyn. SLIAC ei hun fydd yn penderfynu, fesul achos, a yw darpariaeth ddeddfwriaethol yn dod o dan y diffiniad hwn yn eu barn nhw. Felly, byddai angen i SLIAC sefydlu yn gyntaf a yw hyn yn dod o fewn cwmpas cyfraith amgylcheddol ac yna, os felly, gallu asesu ei effeithiolrwydd ac unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth.

⁶⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [83]

*Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl y byddai hyn yn syml ond, fel gyda phob terminoleg ddeddfwriaethol, mewn amser, a chyda thirwedd ddeddfwriaethol sy'n esblygu ar y pwnc hwn, efallai y bydd angen i'r llysoedd ddatrys unrhyw anghydfodau ynghylch y dehongliad o "gyfraith amgylcheddol" fel y'i diffinnir yn y Bil."*⁶⁹

92. Wrth arfer ei swyddogaethau, bydd gofyn i SLIAC benderfynu fesul achos a yw deddfwriaeth yn gyfystyr â chyfraith amgylcheddol o dan y Bil. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a yw'n hyderus bod y gofyniad hwn yn ymarferol ac yn ddichonadwy. Fe wnaethom ofyn hefyd a yw'n rhesymol disgwyl i SLIAC orfodi'r gyfraith, ac o bosibl gyfeirio materion at yr Uchel Lys ar sail ei asesiad ei hun ynghylch a yw darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"Nid oes gennym unrhyw bryderon ynghylch dichonoldeb ac ymarferoldeb disgwyl i SLIAC ddefnyddio ei swyddogaethau a gorfodi'r darpariaethau. Mae'r amgylchedd yn faes datganoledig i raddau helaeth, ac mae wedi bod felly ers cryn amser felly mae dealltwriaeth dda ar y cyfan o'r hyn sydd wedi'i ddatganoli. Fel y soniwyd yn fy ateb i'r cwestiwn uchod, roeddem yn disgwyl y byddai asesiad SLIAC ynghylch a yw darpariaethau yn dod o fewn cwrmpas cyfraith amgylcheddol yn syml (er ein bod yn cydnabod y gallai hyn newid gyda thirwedd ddeddfwriaethol sy'n esblygu).

Ymhellach, bydd Bwrdd SLIAC yn cynnwys arbenigedd sy'n cynnwys gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o gyfraith a pholisi amgylcheddol yng nghyd-destun y Bil, ac mae'r ystyr hwn o gyfraith amgylcheddol yn gysylltiedig yn benodol â darpariaeth ddatganoledig.

Ymhellach, disgwylir i SLIAC geisio cael mynediad at gyngor cyfreithiol ar gyfer materion o'r fath o ystyried yr ystod eang o bwerau gorfodi sydd ar gael i'r corff, fel mae awdurdodau cyhoeddus eraill yn ei wneud, er na ddarperir ar gyfer hynny yn benodol yn y Bil.

⁶⁹ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 7

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ddarpariaeth ddatganoledig, felly mae'r un mater yn codi mewn perthynas a OEP.”⁷⁰

93. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer o dan adran 29(4) o'r Bil i wneud rheoliadau sy'n nodi a yw darpariaeth o fewn y diffiniad o “gyfraith amgylcheddol” ai peidio. Pan wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet egluro pam mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol, ac a yw'n bwriadu ei ddefnyddio'n rheolaidd i nodi pa ddeddfwriaeth, neu rannau o ddeddfwriaeth, a ystyrir yn “gyfraith amgylcheddol”, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Rydym wedi cynnwys diffiniad ar gyfer “cyfraith amgylcheddol” i ddarparu mwy o eglurder. Gall dadleuon ynghylch yr hyn a fyddai ac na fyddai o fewn cwmpas cyfraith amgylcheddol fod yn eang a chymhleth, gan gwmpasu meysydd fel ansawdd aer, dŵr, gwastraff, bioamrywiaeth a mwy.

Diben adran 29(4) yw darparu i Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, fecanwaith i ddiweddarau'r diffiniad o gyfraith amgylcheddol heb fod angen diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol bob tro, lle mae cyfiawnhad clir dros wneud hynny.

Bydd hyn yn galluogi'r Ddeddf i gael ei diogelu at y dyfodol ar gyfer tirwedd ddeddfwriaethol sy'n esblygu. Can y bydd hyn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd ac ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth, nid yw'n rhywbeth y gallai Gweinidogion Cymru ei wneud yn unochrog, na disgwyl ei ddefnyddio'n rheolaidd. Yn nodedig, gellid defnyddio'r pŵer hwn hefyd i adlewyrchu'r amgylchiadau a gwmpesir gan gwestiwn 9: sef adlewyrchu canfyddiadau'r Llys.”⁷¹

94. Yn y Datganiad o Fwriad y Polisi, dywed Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r pŵer yn adran 29(4) o'r Bil (os caiff ei arfer) yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n “effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau'r Bil drwy ychwanegu, diwygio neu ddileu darpariaethau y gellir eu hystyried yn ‘gyfraith amgylcheddol’ at ddibenion y Ddeddf, ac sy'n cael effaith sylweddol ar gwmpas pwerau goruchwyllo'r Swyddfa

⁷⁰ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 8

⁷¹ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 10

Llywodraethiant Amgylcheddol”.⁷² Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet egluro i ba raddau y gellid defnyddio'r pŵer hwn i eithrio darpariaeth sydd ar hyn o bryd yn dod o dan y diffiniad o “gyfraith amgylcheddol” fel y'i drafftaiwyd o dan y Bil. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Gellid defnyddio'r pŵer i eithrio'r ddarpariaeth bresennol a ystyriwyd yn gyfraith amgylcheddol cyn y pwynt hwnnw gan fod y pŵer yn weddol eang yn fwriadol, ac mae'n dweud y gall Gweinidogion Cymru ddarparu bod darpariaeth ddatganoledig o fewn, neu ddim o fewn, y diffiniad o gyfraith amgylcheddol.

Yn unol â'r ymatebion yng nghwestiwn 9 a 10, efallai y bydd hyn yn ofynnol neu'n fuddiol i adlewyrchu canfyddiadau'r llys os oedd unrhyw her ynghylch cwrdd cyfraith amgylcheddol. Mae'n werth ailadrodd, fodd bynnag, fod y pŵer yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd ac eto, ni all Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio'n unochrog.”⁷³

95. Fe wnaethom hefyd ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam na fydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru cyn gwneud rheoliadau i'w gwneud o dan adran 29(4), ac ymatebodd:

“Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth oni bai ei bod yn dechnegol neu nad yw'n gwneud diwygiadau sylweddol.

Rydym yn ymwybodol bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgynghori cyn gwneud is-ddeddfwriaeth yn un a wnaed gan Lywodraeth bresennol Cymru ac nad yw'n ddyletswydd statudol arni. Rydym yn ystyried ymhellach a allai'r disgwyliad hwn i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau gael ei gryfhau o fewn y Bil.”⁷⁴

⁷² Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi, tudalen 4

⁷³ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 11

⁷⁴ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 12

Ystyr awdurdod cyhoeddus (adran 30)

96. Mae'r diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" yn y Bil wedi ei ddiffinio drwy gyfeirio at Awdurdodau Datganoledig Cymru yn adran 157A o Ddeddf 2006, ac amryw o gyrff eraill yn Atodlen 7B i'r Ddeddf. Pan wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet sut penderfynodd pa gyrff ddylai gael eu cynnwys o dan y diffiniad hwn, a pham nad yw wedi ei ddrafftio drwy gyfeirio at unrhyw gorff sy'n darparu swyddogaethau o natur gyhoeddus yng Nghymru, dywedodd wrthym:

"Mae'r awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys o fewn cylch gwaith SLIAC gan y dull drafftio o fewn cwmpas deddfwriaethol y Senedd, cyn belled ag y bo modd. Mae hyn er mwyn lleihau'r gorgyffwrdd a'r dyblygu gyda sefydliadau eraill, fel OEP, a fydd yn gyfrifol yn fras am awdurdodau a gadwyd yn ôl.

Mae rhai cyrff sy'n darparu swyddogaethau o natur gyhoeddus yng Nghymru, fel y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Ystad y Goron, yn gyrff a gadwyd yn ôl, felly nid ydynt yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth wleidyddol yn yr un modd ag y bydd awdurdodau sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas SLIAC.

*Mae OEP yn bodoli i gwmpasu awdurdodau a gadwyd yn ôl a, phe bai unrhyw fwch goruchwyllo yn codi, credwn y gellir mynd i'r afael â'r rhain drwy gydweithrediad rhwng SLIAC, OEP a'r awdurdodau cyhoeddus eu hunain."*⁷⁵

97. Mae mwyafrif yr awdurdodau cyhoeddus o dan y Bil wedi eu rhestru yn Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i cyflwynwyd gan adran 157A o'r Ddeddf honno. Fodd bynnag, o dan adran 157A, mae prawf statudol hefyd ar gyfer cyrff cyhoeddus ychwanegol i ffurfio Awdurdodau Datganoledig Cymru. Gan hynny, fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a yw'n fodlon bod cwmpas y diffiniad o 'awdurdodau cyhoeddus' o dan y Bil yn ddigon sicr, ac i ba raddau mae'n disgwyl i gyrff cyhoeddus pellach fod yn gymwys fel 'awdurdodau cyhoeddus' o dan y prawf statudol. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn fodlon bod y diffiniad o awdurdodau cyhoeddus yn "ddigon sicr", ac ychwanegodd:

⁷⁵ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 13

"Mantais y dull hwn yw ei fod yn symudol ei natur ac, os ychwanegir unrhyw gyrff yn y dyfodol at y rhestr yn Atodlen 9A neu os ydynt yn bodloni'r amodau yn is-adran (2) o is-adran 157A (hynny yw, mae ei swyddogaethau'n arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig, ac yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl), byddent yn cael eu cynnwys o fewn goruchwyliaeth SLIAC.

*Ar hyn o bryd, nid ydym yn disgwyl i unrhyw gyrff cyhoeddus pellach ddod o dan y prawf statudol yn 157A(2), ond credwn ei bod yn ddoeth i ddiogelu cwnmpas y pwerau yn y Bil at y dyfodol."*⁷⁶

Ein barn ni

98. Rydym yn croesawu eglurhad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch absenoldeb darpariaeth benodol sy'n cadarnhau annibyniaeth Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Rydym o'r farn y byddai datganiad o'r fath yn ddefnyddiol ac rydym yn argymhell diwygio'r Bil yn hyn o beth.

Argymhelliad 6. Dylid diwygio'r Bil i gynnwys darpariaeth sy'n cadarnhau'n benodol annibyniaeth Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru oddi ar y llywodraeth.

99. Rydym yn croesawu'r ffaith bod ymateb Ysgrifennydd y Cabinet yn cadarnhau y bydd rolau cadeirydd a dirprwy gadeirydd Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cael eu hychwanegu at y rhestr o rolau sy'n gofyn am wrandawriad cyn penodi yn y Senedd. Fodd bynnag, nodwn nad yw'r modd y drafftwyd paragraff 8(2) o Atodlen 1 i'r Bil yn darparu'n benodol y bwriedir i hon fod yn rôl sy'n ddarostyngedig i wrandawriad yn y Senedd cyn penodi.

100. Fel mater o ddehongliad statudol, gellid dadlau bod y ddyletswydd i ymgynghori â phwyllgor yn y Senedd yn cael ei bodloni drwy geisio barn yn ysgrifenedig. Fel pwynt o egwyddor a deddfu da, os bwriedir i rôl fod yn destun gwrandawriad cyn penodi, byddem yn disgwyl i hyn gael ei adlewyrchu ar wyneb y ddeddfwriaeth.

⁷⁶ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 14

101. Rydym yn cydnabod bod y fframwaith ar gyfer penodiadau ymlaen llaw yn gweithredu y tu allan i'r Bil hwn. Gan hynny, rydym yn cydnabod y gallai fod canlyniadau anfwriadol os bydd y Bil yn cael ei ddiwygio ar ei ben ei hun.

Argymhelliad 7. Rydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad o'r gyfundrefn ehangach cyn penodiadau gyda'r bwriad o adlewyrchu gweithrediad y gyfundrefn yn well ar wyneb deddfwriaeth sylfaenol.

102. Er ein bod ni'n fodlon bod gan ystyr 'awdurdod cyhoeddus' sicrwydd cyfreithiol fel y'i drafftwyd, nodwn fod bwlch llywodraethu yn parhau oherwydd:

- Mae'r Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol yn cwmpasu cyrff wedi eu neilltuo sy'n ddarostyngedig i gyfraith amgylcheddol yn Lloegr, ond
- bydd Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cwmpasu awdurdodau datganoledig Cymru (a rhai awdurdodau sydd wedi eu neilltuo) sy'n ddarostyngedig i gyfraith amgylcheddol ddatganoledig.

103. Mae hyn yn gadael bwlch llywodraethu i awdurdodau sydd wedi eu neilltuo (y tu allan i awdurdodaeth Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru) sy'n gweithredu yng Nghymru yn ddarostyngedig i gyfraith amgylcheddol ddatganoledig.

104. Rydym hefyd yn pryderu ynghylch cwmpas y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 29(4) o'r Bil.

105. Fel y cydnabyddir yn Natganiad o Fwriad Polisi Llywodraeth Cymru, pe bai'r pŵer hwn yn cael ei arfer, byddai'n cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n "effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau'r Bil drwy ychwanegu, diwygio neu ddileu darpariaethau y gellir eu hystyried yn 'gyfraith amgylcheddol' at ddibenion y Ddeddf".

106. Mae "cyfraith amgylcheddol" yn ddiffiniad allweddol yn y Bil. Mae'n diffinio ac yn llywio cwmpas swyddogaethau Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Fel y cyfryw, mae unrhyw ddiwygiad i'r diffiniad o reidrwydd yn addasu ac yn cael effaith sylweddol ar gwmpas Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru.

107. Fel y'i drafftwyd, rydym yn pryderu bod y pŵer yn darparu gormod o ddisgresiwn i Weinidogion Cymru benderfynu a yw mater yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd. Nid ydym o'r farn bod gweithdrefn

gymeradwyo'r Senedd yn darparu mesurau diogelu digonol rhag y posibilrwydd o gamddefnyddio'r pŵer.

108. Er gwaethaf hyn, rydym yn cydnabod y gellir cyfiawnhau'r pŵer mewn egwyddor. Rydym yn nodi bod manteision i gael gwared ar amwysedd ynghylch a yw darpariaeth benodol yn dod o dan y diffiniad, ac i adlewyrchu penderfyniadau llysoedd ar faterion o'r fath.

Argymhelliad 8. Dylai'r pŵer gwneud rheoliadau yn adran 29(4) o'r Bil fod yn ddarostyngedig i ffurf uwch o weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Yn benodol, dylid diwygio'r Bil i fynnu ymgynghoriad gorfodol (gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus) a chyfnod gosod hirach yn y Senedd fel bod digon o amser ar gyfer craffu ystyrlon.

Rhan 3 - Targedau bioamrywiaeth, ac ati

Cefndir

109. Mae Rhan 3 o'r Bil yn creu fframwaith i Weinidogion Cymru osod, adolygu ac adrodd ar dargedau i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan:

"Nod cyffredinol y rhan hon o'r Bil yw cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Bydd y Bil yn diwygio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 drwy gyflwyno fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth, a fydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth (a dyletswydd i'w cyflawni), ochr yn ochr â chryfhau'r swyddogaethau cynllunio, monitro ac adrodd presennol yn adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016..."⁷⁷

110. Mae adran 33 o'r Bil (targedau bioamrywiaeth) yn mewnosod wyth adran newydd (adrannau 6B, 6C, 6D, 6E, 6F, 6G, 6H a 6I) yn *Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* (Deddf 2016) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gosod, adolygu ac adrodd ar dargedau "i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru"⁷⁸. Bydd adran 6A newydd (wedi ei chyflwyno gan adran 38 o'r Bil) hefyd

⁷⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.30

⁷⁸ Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), paragraff 164

yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau i fioamrywiaeth.

111. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn darparu gwybodaeth am y fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth ehangach, sy'n gosod dyletswyddau a chyfyngiadau penodol ynghylch sut gall Gweinidogion Cymru arfer eu pŵer gosod targedau neu sut mae'n rhaid iddynt wneud hynny.⁷⁹

112. Mae adran 6B(1) newydd o Ddeddf 2016 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod targedau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru. Yn y Datganiad o Fwriad Polisi, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud:

*"Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 6B(1) yn destun ymgynghoriad ac asesiadau effaith llawn er mwyn sicrhau bod safbwyntiau rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig a fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf gan golli bioamrywiaeth, yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r rheoliadau. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd."*⁸⁰

113. Mae adran 6C(1) newydd o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod o leiaf un targed mewn perthynas ag o leiaf un mater ym mhob un o'r pedwar maes blaenoriaeth a restrir yn yr adran 6C(2) newydd. Rhaid gosod rheoliadau drafft sy'n gosod targedau o'r fath gerbron y Senedd o fewn tair blynedd i'r dyddiad mae'r Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol (adran 6C(5) newydd).

Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

Dull cyffredinol o ymdrin â thargedau bioamrywiaeth

114. Gan y bydd y targedau bioamrywiaeth yn cael eu nodi mewn rheoliadau, fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd o'r farn bod hyn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng darparu digon o fanylion ar wyneb y Bil a sicrhau hyblygrwydd i gynorthwyo cyflawni. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"I think the balance is right here. I'm aware of some of the concerns about targets not being on the face of the Bill, but

⁷⁹ Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi, tudalennau 5 i 8

⁸⁰ Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi, tudalennau 7 ac 8

setting them out in the regulations I think is the right way forward. There's a general power to set biodiversity targets in regulation, but the Bill also provides very clear direction for how the power will be used. For example, we can only set targets if they'll contribute to that aim of halting and reversing the decline in biodiversity. The Bill also sets a duty on Welsh Ministers to set at least one target in each of the four priority areas on the face of the Bill that we consider address the most urgent issues required to tackle the nature emergency. And it'll also provide detail of the attributes of the targets that will be set. So, we think we have got the balance right here, and it is something that we have engaged on, through the extensive consultation and stakeholder engagement, to get this right.

Part of this is also that element of making sure that we have some of the flexibility within this because targets may need to be reviewed from time to time. They could well be; you can anticipate they could be. Some of these targets will be enduring; they will be long term and enduring. On others we might find the evidence base has changed-and this is important, by the way, for getting the targets right-but the evidence base may well change and we want to revisit and refresh and update or make more ambitious a particular target. This gives us the right way forward to do it in a more agile way. And just finally, Sam, the regulations, of course, will be subject to the Senedd approval procedure, so they give the Senedd an opportunity, then, to scrutinise these targets.”⁸¹

115. Mae'r Bil yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i osod targedau mewn perthynas ag 'unrhyw fater' sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet egluro'r cyfyngiadau ar arfer y pŵer hwn. Dywedodd wrthym fod y Bil yn cynnwys “nifer o gyfyngiadau ar arfer y pŵer hwn”, gan ychwanegu:

“Ni chaiff Gweinidogion Cymru osod targed onid ydynt wedi eu bodloni y byddai ei gyrraedd yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru, yn benodol drwy

⁸¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 30 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [121] a [122]

un neu ragor o'r canlynol: cynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol, gwella gwydnwch ecosystemau neu gynyddu amrywiaeth enetig.

Mae yna hefyd gyfyngiadau ymarferol wedi'u hymgorffori yn y pŵer gosod targedau. Er enghraifft, rhaid i bob targed:

- *Ddatgan safon wrthrychol fesuradwy i'w chyflawni,*
- *Bod yn gyraeddadwy (ac mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i'w chyflawni),*
- *A chynnwys dyddiad targed clir ar gyfer cyflawni.*

Yn ogystal, ni ellir gosod targedau o dan y maes blaenoriaeth "Ileihau llygredd" os gellid eu gosod hefyd gan Weinidogion Cymru mewn targedau ansawdd aer o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024, er mwyn osgoi dyblygu'r pwerau hynny."⁸²

Amseru targedau bioamrywiaeth mewn meysydd blaenoriaeth

116. O dan yr adran 6C newydd, rhaid i Weinidogion Cymru osod rheoliadau drafft gyda thargedau bioamrywiaeth mewn meysydd blaenoriaeth o fewn tair blynedd i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet egluro'r cyfiawnhad dros yr amserlen hon, a gofyn a fyddai'n ymarferol cyflwyno rheoliadau drafft yn gynt. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

"Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynglŷn â'r amserlenni ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth. Fodd bynnag, fel y codais gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, mae hon yn broses gymhleth ac aml-gam sydd o reidrwydd yn cymryd amser i sicrhau trylwyrdd a hygrededd. Mae gwaith ar ddatblygu targedau eisoes yn mynd rhagddo yn gyflym ochr yn ochr â'r Bil. Wedi dweud hynny, er mwyn cyflymu'r gwaith yn sylweddol, efallai y bydd angen cyfaddawdu ar ddyfnder neu ehangder datblygu targedau.

⁸² Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 15

Un o elfennau allweddol y broses datblygu targedau yw profi a modelu senarios cynhwysfawr, sy'n ein helpu i werthuso gwahanol opsiynau polisi a deall sut y gallai amodau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd amrywiol effeithio ar ganlyniadau bioamrywiaeth. Rydym wedi comisiynu'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) i ymgymryd â'r gwaith modelu hwn. Yn gyffredinol, disgwylir i'r rhaglen waith hon gymryd 12 mis, ac mae'n cynnwys cyfres o becynnau gwaith olynol. Bydd y pecynnau gwaith hyn yn adeiladu ar allbynnau dilynol i ddarparu allbwn modelu terfynol.

Yn ogystal â'r gwaith modelu, rhaid i ni hefyd ganiatáu digon o amser ar gyfer y broses is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys cael cyngor annibynnol, cynnal asesïadau effaith integredig a rheoleiddiol (gan gynnwys dadansoddiad cost a budd), cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, drafftio deddfwriaeth, cael cymeradwyaeth y Senedd a pharatoi canllawiau gweithredu manwl. Can ystyried yr holl ffactorau hyn - ochr yn ochr ag amseru etholiadau'r Senedd y flwyddyn nesaf - credwn fod amserlen tair blynedd yn realistig. Cadarnhawyd yr amserlen arfaethedig hon hefyd gan yr arbenigwyr academiaidd yn ystod sesiwn dystiolaeth gyntaf y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflwyno'r rheoliadau yn gynt os oes modd. O ystyried y cymhlethdodau a'r dibyniaethau dan sylw, byddem yn croesawu barn y Pwyllgor, fel rwyf wedi croesawu barn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, ar yr hyn y maent yn ei ystyried yn amserlen realistig a chyflawnadwy ar gyfer gosod y Rheoliadau.”⁸³

Cydymffurfio â'r targedau bioamrywiaeth

117. Mae'r gofyniad penodol i gymryd camau i gyfrannu at gyrraedd y targedau bioamrywiaeth yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus sydd wedi eu 'dynodi' mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Pan wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y

⁸³ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 17

Cabinet esbonio pam nad yw'r Bil yn cynnwys dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â thargedau bioamrywiaeth, dywedodd:

“O dan y fframwaith arfaethedig, Gweinidogion Cymru yn unig fydd yn gorfod cyflawni'r ddyletswydd statudol i gyrraedd targedau bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae'r Bil yn darparu pŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi awdurdodau cyhoeddus penodol i gyfrannu at gyflawni targedau penodol. Mae awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eisoes yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd bioamrywiaeth gyffredinol o dan adran 6(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a byddant yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau wrth arfer swyddogaethau yng Nghymru. Bwriad y ddyletswydd newydd i gyfrannu yw ategu'r ddyletswydd adran 6 bresennol hon drwy ddarparu mecanwaith ar gyfer cyflawni sydd wedi'i dargedu fwy ac sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Ei nod yw cynnig mwy o eglurder ar y cyfraniadau penodol y gall awdurdodau cyhoeddus dynodedig eu gwneud tuag at gyflawni canlyniadau bioamrywiaeth.

Rydym wedi cymryd agwedd gymesur a seiliedig ar dystiolaeth at y pŵer hwn. Ni fydd dynodiad ond yn cael ei ystyried pan fo awdurdod cyhoeddus mewn sefyllfa dda i wneud cyfraniad ystyrlon at darged penodol drwy ei swyddogaethau presennol. Mae'r dull hwn yn cydnabod na fydd pob targed yn berthnasol i bob awdurdod—er enghraifft, ni fyddai disgwyl i awdurdod lleol tirgaeedig gyfrannu'n uniongyrchol at darged bioamrywiaeth morol. Rydym hefyd wedi bod yn ymwybodol o'r pwysau gweithredol ar awdurdodau cyhoeddus ac wedi adlewyrchu adborth rhanddeiliaid a gafwyd drwy'r ymgynghoriad Papur Gwyn. Rydym o'r farn bod y dull hyblyg hwn sydd wedi'i dargedu yn taro cydbwysedd priodol rhwng y manteision sy'n

deillio o osod dyletswydd i gyfrannu a gosod beichiau ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus.”⁸⁴

118. O dan adran 6E newydd Deddf 2016 (i'w mewnosod gan y Bil), mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y targedau bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni. Wrth ymateb i'n cwestiwn pam nad yw'r Bil yn gosod dyletswydd benodol ar SLIAC i fonitro a gorfodi'r rhwymedigaeth hon, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Mae Atodlen 2 i'r Bil yn nodi gofynion gweithredol allweddol ar gyfer SLIAC, gan gynnwys y rhwymedigaeth i fynegi o fewn ei strategaeth sut, wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 11 (monitro ac adrodd), y mae'n bwriadu monitro unrhyw dargedau amgylcheddol a osodir gan neu o dan gyfraith amgylcheddol. Mae'r strategaeth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, sy'n cyflwyno haen bwysig o dryloywder ac atebolrwydd. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y SLIAC yn gweithredu fel corff gwirioneddol annibynnol, rhaid sicrhau nad yw'n cael unrhyw gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru nac unrhyw barti arall.

Mae targedau amgylcheddol statudol yn rhan bwysig o'r dirwedd ddeddfwriaethol, ac rydym yn disgwyl y bydd SLIAC yn dymuno ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau gorfodi pan fo pryderon yn codi ynghylch eu cyflawni. Wedi dweud hynny, rydym wedi bod yn ofalus i beidio â rhagnodi sut y dylai SLIAC gyflawni ei swyddogaethau. Fel corff annibynnol o arbenigwyr, SLIAC sydd yn y sefyllfa orau i bennu ei blaenoriaethau ei hun. Os yw'n ystyried bod unrhyw dargedau statudol, nid targedau bioamrywiaeth yn unig, yn haeddu sylw, nid oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth i'w hatal rhag gwneud hynny. Credwn fod y dull hwn yn parchu'r egwyddor o annibyniaeth wrth sicrhau bod y pwerau a'r tryloywder angenrheidiol ar waith i gefnogi llywodraethiant amgylcheddol effeithiol.

Ar ben hynny, rydym yn deall bod y dull hwn o ddiogelu annibyniaeth y corff i ddewis pa rwymedigaethau statudol y mae'n eu hystyried, mewn cydbwysedd â'i adnoddau, wedi'i

⁸⁴ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 19

gefnogi gan y dystiolaeth a roddwyd gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, Environmental Standards Scotland ac Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru pan ddaethant gerbron y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn gynharach y mis hwn.

Ar wahân i SLIAC, mae mesurau yn y Bil i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn monitro ac yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd tuag at gyrraedd y targed, er enghraifft, drwy'r adroddiadau adran 6 diwygiedig y mae'n rhaid eu paratoi bob tair blynedd. Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru na fydd targed yn cael ei gyrraedd, rhaid iddynt adolygu'r targed hwnnw (sy'n cynnwys cael cyngor arbenigol annibynnol) a gosod datganiad gerbron y Senedd yn nodi eu casgliadau. Mae hyn yn golygu y bydd cynnydd tuag at gyrraedd y targedau yn broses dryloyw ac yn agored i'r Senedd graffu arni (yr adran 6G newydd arfaethedig)."⁸⁵

Cadernid y fframwaith neu gyflawni amcanion y Bil

119. Yn ein llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet ar 9 Gorffennaf, nodwyd y bydd y gofyniad i osod targedau bioamrywiaeth yn gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru yn y seithfed Senedd. Gan hynny, gellid bodloni'r gofynion bioamrywiaeth yn y Bil drwy osod rheoliadau yn 2029, gan osod pedwar targed yn unig heb unrhyw ofyniad i ddynodi unrhyw awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â thargedau o'r fath. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet sut roedd hwn yn fframwaith deddfwriaethol digon cadarn, a'i ymateb oedd:

"... rydym yn fodlon bod y Bil yn ddigon cadarn. Yn ogystal â'r fframwaith targedau bioamrywiaeth newydd, mae'r Bil yn adeiladu ar ddyletswyddau presennol Gweinidogion Cymru (ac unrhyw awdurdodau cyhoeddus a ddynodwyd i gyfrannu at dargedau bioamrywiaeth), ac yn eu cryfhau, i gefnogi'n well ymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfwng natur yng Nghymru. Mae'r darpariaethau bioamrywiaeth yn canolbwyntio ar sefydlu targedau statudol a fydd yn sbarduno camau i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, gan helpu i roi natur ar lwybr adferiad er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Fodd bynnag, dim

⁸⁵ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 21

ond un elfen o ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd yw'r Bil. Ni ddylid ei ystyried ar wahân, gan ei fod yn ategu ystod eang o fesurau polisi a deddfwriaethol presennol.

Mae'r pŵer gosod targedau yn y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth y tu hwnt i'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer y meysydd blaenoriaeth a nodwyd, gan sicrhau bod y fframwaith yn parhau i fod yn ymatebol i heriau sy'n dod i'r amlwg. O ystyried yr anhawster i ragweld holl sbardunau colli bioamrywiaeth yn y dyfodol, mae'r hyblygrwydd hwn yn hanfodol i gynnal perthnasedd hirdymor y Bil. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer adolygu targedau i sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi ein nod cyffredinol o atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth. Yn y mecanwaith hwn mae gofyniad i Weinidogion Cymru nodi sut y bydd y targedau, os cânt eu cyflawni, yn cyfrannu at atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth. Mae disgwyl i Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang y Cenhedloedd Unedig, sydd wedi llywio datblygiad y meysydd blaenoriaeth, gael ei adolygu yn 2030. Bydd hyn yn rhoi cyfle amserol i ystyried a oes angen targedau pellach sy'n cyd-fynd ag unrhyw flaenoriaethau byd-eang newydd.

Er nad yw'r Bil yn gosod dyletswydd i ddynodi awdurdodau cyhoeddus, bydd gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i gyrraedd y targedau a osodwyd ganddynt. Ynghyd â darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â monitro ac adrodd ar dargedau (a drafodwyd yn gynharach), mae hyn yn creu cymhelliant cryf i ddynodi awdurdodau cyhoeddus lle maent mewn sefyllfa dda i gyfrannu'n ystyrllon at gyflawni targedau. Mae'r angen i weithredu ar y cyd, ynghyd â'r ddyletswydd statudol ar Weinidogion, yn darparu mecanwaith clir i lywodraethau'r dyfodol fanteisio ar alluoedd awdurdodau cyhoeddus mewn ffordd gymesur a strategol.”⁸⁶

⁸⁶ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 22

Hygyrchedd Rhan 3 o'r Bil

120. Mae adrannau 33 i 36 o'r Bil yn gwneud nifer o ddiwygiadau i adran 6 o Ddeddf 2016. O ganlyniad, mae dadl bod adran 6 o'r Ddeddf honno yn cael ei gwneud yn llai hygyrch i'r darllenydd. Mae dau ddiffiniad ar wahân o 'awdurdod cyhoeddus' yn yr un adran at ddibenion gwahanol, a dyletswyddau ar wahân i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill mewn perthynas â'r un cynlluniau adran 6 ac adroddiadau heb benawdau clir. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd ef yn agored i ailystyried y diwygiadau a wnaed gan y Bil i adran 6 o Ddeddf 2016 gyda golwg ar wneud pethau'n fwy hygyrch a darllenadwy. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"Drwy ymgorffori'r fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rydym yn sicrhau bod yr holl deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru yn cael ei chydgrynhoi o fewn un Ddeddf. Credwn fod y dull hwn yn gwella hygyrchedd a chydlyniant, gan osgoi'r angen i ddefnyddio mwy nag un offeryn deddfwriaethol.

Ers deddfu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd wedi newid. Mae hyn wedi dylanwadu ar ddrafftio'r Bil presennol. Er enghraifft, mae'r diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" yn adran 6(9) a (10) o Ddeddf 2016 yn adlewyrchu'r setliad datganoli ar yr adeg honno. Mewn cyferbyniad, mae'r diffiniad sydd bellach wedi'i gynnwys drwy adran 34(4) o'r Bil (yr adran 6(11) newydd arfaethedig o Ddeddf 2016) yn adlewyrchu cymhwysedd deddfwriaethol presennol y Senedd.

O dan y trefniadau datganoli presennol, mae rhai awdurdodau cyhoeddus—fel arfer y rhai sy'n gweithredu ar draws Cymru a Lloegr—bellach yn cael eu dosbarthu fel "awdurdodau a gadwyd yn ôl." Yn yr achosion hyn, mae'r Senedd angen cydsyniad Gweinidog y Goron i osod swyddogaethau ar gyrff o'r fath. Mae Ystad y Goron yn enghraifft o awdurdod a gadwyd yn ôl. Fodd bynnag, mae eithriadau i'r gofyniad hwn.

Nid oes angen cydsyniad Gweinidog y Goron ar rai awdurdodau a gadwyd yn ôl, megis ymgymrwyr dŵr a charthffosiaeth, a restrir ym mharagraff 9(6) o Atodlen 7B i

Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae angen cydsyniad ar eraill, gan gynnwys yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Ofwat a'r Rheolydd Hawliau Amrywogaethau Planhigion, gan na all y Senedd greu swyddogaethau arferadwy yn benodol mewn perthynas â nhw hebddo. Mae pob un o'r awdurdodau hyn wedi'u cynnwys o fewn diffiniad y Bil o "awdurdod cyhoeddus."

Mae'r diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" yn y Bil hefyd yn cynnwys awdurdodau datganoledig Cymru. O ystyried nifer y cyrff o'r fath a'r potensial ar gyfer newid sefydliadol—megis ailenwi, uno neu ddisodli—roeddem o'r farn ei bod yn anymarferol rhestru pob awdurdod yn unigol. Byddai gwneud hynny wedi arwain at ddarpariaeth hir ac anhyblyg y byddai angen ei diwygio'n aml.

Credwn fod y dull yn y Bil yn taro cydbwysedd priodol rhwng eglurder, ymarferoldeb a hyblygrwydd, yn enwedig o ystyried y cymhlethdodau dan sylw. Fodd bynnag, os yw'r Pwyllgor yn dymuno cynnig dull amgen sy'n mynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn yn fwy effeithiol, byddem yn croesawu'r cyfle i'w ystyried.”⁸⁷

Ein barn ni

121. Yn ein barn ni, mae'r fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth yn Rhan 3 o'r Bil yn un byrbwyll. Mae gennym amheuan ynghylch i ba raddau y bydd y targedau yn gwneud cyfraniad ystyrlon tuag at gyflawni'r nodau maent yn ceisio eu dilyn.

122. Mae'r Bil yn darparu disgresiwn eang i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau penodol. Fodd bynnag, nodwn fod y ddyletswydd hon wedi ei chyfyngu i gyflwyno rheoliadau erbyn 2029 gan osod pedwar targed yn unig mewn meysydd blaenoriaeth heb unrhyw ofynion ynghylch a ddylai'r rhain fod yn dargedau tymor byr neu dymor hir.

123. Rydym yn nodi nad oes dyletswydd gyffredinol ar unrhyw awdurdod cyhoeddus i gyfrannu tuag at gyflawni unrhyw darged a osodwyd. Er y gall awdurdod cyhoeddus gael ei ddynodi mewn perthynas â tharged (ac felly fod o

⁸⁷ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 12 Medi 2025, ymateb i Gwestiwn 16

dan ddyletswydd i gyfrannu tuag at gyflawni targed o'r fath), nodwn nad oes unrhyw ddyletswydd o dan y Bil i ddynodi unrhyw awdurdod cyhoeddus.

124. Yn ogystal â'n hamheuron ynghylch cadernid Rhan 3 o'r Bil, mae gennym amheuron hefyd ynghylch ei hygyrchedd. Mae'r Bil yn diwygio Deddf 2016 i gyflwyno fframwaith targed bioamrywiaeth sy'n adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol yn adran 6 o'r Ddeddf. Yn ein barn ni, mae'r diwygiadau a wnaed i adran 6 wedi effeithio ar ei hygyrchedd a'i darllenadwyedd. Er nad ydym o'r farn ei fod yn croesi'r trothwy o fod yn aneglur neu'n ansicr, mae'n enghraifft o beryglon posibl mewnosod darpariaeth sylweddol newydd yn y ddarpariaeth bresennol. Yn benodol, y gwahanol ddyletswyddau rhwng Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â'u cynlluniau a'u hadroddiadau; y ddau ddiffiniad ar wahân o "awdurdodau cyhoeddus" at ddibenion adran 6; a'r ffaith mai dim ond awdurdodau cyhoeddus penodol sy'n gorfod cymryd camau i gyrraedd y targedau.

125. Yn fwy eang, tra'n cydnabod nad ein swyddogaeth ni yw gwneud sylwadau ar bolisi amgylcheddol, rydym yn ymwybodol o'r fframwaith deddfwriaethol amgylcheddol cynyddol gymhleth yng Nghymru. Rydym yn pryderu bod cynnwys targedau bioamrywiaeth heb arweiniad ac eglurder pellach gan Lywodraeth Cymru yn ychwanegu at gymhlethdod y fframwaith statudol hwnnw a'r dasg sy'n wynebu awdurdodau cyhoeddus sy'n gorfod cydymffurfio â'r gyfraith yn ymarferol. Mae'r cymhlethdod a'r diffyg eglurder hwn yn peryglu'r canlyniadau mae'r Bil yn ceisio eu cyflawni.



Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for
Climate Change and Rural Affairs

Ein cyf: PO/HID/443/25

Mike Hedges AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

12 Medi 2025

Annwyl Mike,

Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Gorffennaf yn dilyn ein sesiwn graffu ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn sesiwn y Pwyllgor ar 30 Mehefin. Ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth fel y nodir isod.

Ymateb i Baragraffau 18 – 41 yn y trawsgrifiad

Fel yr esboniais yn ystod fy ymddangosiad gerbron y pwyllgor, mae rhesymau da pam ein bod wedi blaenoriaethu gwaith arall yn gyntaf cyn symud ymlaen i hyn.

Rydym wedi cyflawni nifer o ymrwymadau blaenoriaeth uchel yn ymwneud â'r amgylchedd ers 2019. Rydym yn cydnabod ein bod ni ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill y DU mewn perthynas â sefydlu deddfwriaeth i weithredu'r egwyddorion amgylcheddol a'r corff llywodraethiant, ond rhaid cydnabod ein bod ni ar y blaen mewn llawer o feysydd eraill.

Rydym wedi datblygu deddfwriaeth i fynd i'r afael â gwaddol tomenni nas defnyddir yng Nghymru, plastigau untro ac wedi cyflwyno deddfwriaeth Aer Glân newydd. Rydym wedi mynd ati i weithredu targed Sero Net newydd ac wedi gosod llwybr i'w gyflawni. Rydym wedi creu grantiau newydd ar gyfer adfer natur, wedi ailgyfeirio gwariant trafnidiaeth yn radical, wedi gwneud diwygiadau i gynlluniau ac wedi cefnogi buddsoddiadau i gyrraedd targedau ansawdd dŵr.

Rydym wedi blaenoriaethu diwygio gweithredol i gefnogi'r amgylchedd, ac rydym yn derbyn bod hyn yn golygu nad ydym wedi gallu gweithredu deddfwriaeth ategol i sicrhau'r diwygiadau hanfodol hyn drwy gryfhau ein fframwaith llywodraethiant cyffredinol hyd yma.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, rydym o'r farn ein bod wedi trefnu'r digwyddiadau hyn yn y ffordd gywir. Rwy'n siŵr na fyddai'r pwyllgor eisiau gweld deddfwriaeth bwysig ar ddiwygio amaethyddol neu dargedau ansawdd aer, a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar lesiant pobl, yn cael ei gohirio ymhellach.

Ymateb i Baragraff 52 yn y trawsgrifiad

Mae'r Bil yn nodi gofynion gweithdrefnol manwl ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r datganiad, neu ddatganiad diwygiedig, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â CNC, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, SLIAC a phobl eraill y maent yn eu hystyried yn briodol

Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd osod gerbron y Senedd gopi o'r datganiad, neu'r datganiad diwygiedig, a dogfen sy'n rhoi manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ac sy'n crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law ac ymateb Gweinidogion Cymru iddynt. Dyna sut y bydd y Senedd yn gallu craffu ar y datganiad neu'r datganiad diwygiedig.

Mae'r darpariaethau hyn yn ddigonol i ddarparu tryloywder, atebolrwydd ac ymgysylltiad angenrheidiol, yn y Senedd a chydag eraill, a chefnogi datblygiad effeithiol y datganiad.

Nid ydym yn credu ei bod yn angenrheidiol, nac yn briodol, gwneud y datganiad hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn benodol y Senedd. Bydd y datganiad yn cynnwys polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer CNC ac awdurdodau cyhoeddus eraill. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol "roi sylw" i'r datganiad, neu i ganllawiau yn y datganiad, wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ran 1 o'r Bil i roi'r egwyddorion ar waith ac integreiddio diogelu'r amgylchedd. Yn nodweddiadol, nid yw mathau eraill o ganllawiau statudol yn destun craffu seneddol, er enghraifft, canllawiau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (adrannau 14, 22(2) a 51).

Serch hynny, byddai gen i ddiddordeb mewn clywed barn y Pwyllgor ar sut y gallai proses y Senedd ar gyfer y datganiad weithio. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn rhybuddio y gallai unrhyw ofynion ychwanegol arwain at oedi o ran gallu Llywodraeth Cymru i gwblhau a chyhoeddi'r datganiad cyn i'r darpariaethau gael eu cychwyn, sydd ar hyn o bryd i fod i ddigwydd chwe mis ar ôl cydsyniad brenhinol. Os ychwanegir prosesau a gweithdrefnau pellach, efallai y bydd angen ymestyn yr amserlen hon i wneud iawn am hynny.

Ymateb i Baragraff 81 yn y trawsgrifiad

Mae'r Bil yn nodi y bydd rhai darpariaethau i sefydlu SLIAC yn cychwyn ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael Cydsyniad Brenhinol (er enghraifft, recriwtio a datblygu strategaeth). Bydd y darpariaethau sy'n weddill yn cael eu cychwyn drwy orchymyn i ganiatáu i'r Corff gyrraedd capasiti gweithredu llawn cyn i ddyletswyddau a rhwymedigaethau gael eu gosod arno.

Bydd y corff yn cymryd amser i ddod yn gwbl weithredol ac nid yw'n anghyffredin i hyn gymryd tua 18-24 mis o'r dyddiad mae'r ddeddfwriaeth yn cael cydsyniad brenhinol.

Mae'n hynod bwysig ein bod yn rhoi amser i SLIAC sefydlu ei hun. Mae trefn angenrheidiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cadeirydd, y Bwrdd a'r Prif Swyddog Gweithredol gael eu penodi cyn y gellir cytuno ar unrhyw benderfyniadau neu gynlluniau sylweddol ynghylch strwythur SLIAC. Gall y broses hon ei hun gymryd hyd at 12 mis. Un o egwyddorion craidd y corff hwn yw ei annibyniaeth a, phe bai Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y gwaith o

baratoi ei strategaeth, sefydlu ei pholisi a'i harferion mewnol a/neu recriwtio ei staff gweithredol, byddai'n amlwg yn tanseilio'r annibyniaeth hon cyn dechrau.

Ar ôl i'r bwrdd a'r staff gweithredol craidd gael eu recriwtio, bydd angen i SLIAC ddatblygu ei strategaeth, ymgynghori arni a'i chyhoeddi. Mae hon yn ddogfen bwysig sy'n manylu i'r cyhoedd sut y bydd SLIAC yn ymgymryd â'i swyddogaethau. Bydd yn sylfaenol tuag at arferion gweithredu SLIAC ac mae'n bwysig bod lle yn cael ei roi i ddatblygu'r strategaeth hon mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Mewn cymhariaeth, sefydlwyd yr ESS gyda Bwrdd llawn a benodwyd yn uniongyrchol gan Weinidogion yr Alban ym mis Hydref 2021. Lansiodd ei ymgynghoriad ar ei gynllun strategol llawn ym mis Mai 2022 ac fe'i cymeradwywyd ym mis Tachwedd 2022. Fel y gwelwch, cymerodd y broses hon 12 mis i'w chwblhau.

Ochr yn ochr â hyn, bydd angen i SLIAC recriwtio staff hyd at ei chyflenwad llawn. Unwaith eto, mae'n bwysig mai SLIAC sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch ei staff gweithredol i sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch ei hannibyniaeth ar yr awdurdodau cyhoeddus sy'n cael eu goruchwylio, sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru.

Er gwaethaf y gofynion hyn, rydym eisoes yn archwilio cyfleoedd i gyflymu'r broses hon, ochr yn ochr â manteision ehangach fel rhannu swyddogaethau swyddfa gefn ar draws sawl awdurdod cyhoeddus, fel yr awdurdod tomenni nas defnyddir.

Ymateb i Baragraff 101 yn y trawsgrifiad

Yn ystod fy ymddangosiad yn y pwyllgor, esboniais ein bwriad o ran cynnwys "ar unrhyw adeg" o fewn adran 15 o'r Bil, er mwyn caniatáu i sylwadau gael eu gwneud am fethiannau honedig a allai fod wedi'u gwneud yn y gorffennol (ac nad ydynt ond wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar o bosibl) ac i sicrhau nad oes bwlch rhwng Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru a'r Corff newydd.

Fodd bynnag, pe bai ymchwiliad yn dod i'r casgliad nad yw methiant i gydymffurfio yn bodoli mwyach, ni fydd SLIAC yn gallu dyroddi hysbysiad cydymffurfio. Mewn geiriau eraill, **rhaid** i'r diffyg cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol fod yn bodoli adeg dyroddi'r hysbysiad. Yn ein barn ni, gallai methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol gynnwys methu â delio â chanlyniadau torcyfraith cynharach lle mae'r gofyniad i unioni ar y llyfr statud.

Bydd canlyniadau methu ag unioni'r niwed a achosir gan dorcyfraith yn parhau i gael eu trin drwy'r drefn reoleiddio bresennol (os yw'r niwed yn cael ei achosi gan unigolyn neu gwmni preifat).

Mae hefyd yn bwysig nad ydym yn cyfuno rôl SLIAC â rôl awdurdodau rheoleiddio. Mae SLIAC yn gorff goruchwylio strategol sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol ac effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol. Mae gwahaniad clir rhwng cyrff rheoleiddio presennol a'r corff llywodraethiant, gan alluogi SLIAC i ganolbwyntio ar fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol heb gymryd rhan ym mhrosesau penderfynu cyrff rheoleiddio eraill, megis y rhai sy'n gyfrifol am gynllunio a thrwyddedu.

Pan fo'r awdurdod cyhoeddus yn gyfrifol o dan y gyfraith am unioni niwed a achosir gan dorcyfraith, bydd SLIAC yn gallu cymryd camau yn hyn o beth yn erbyn yr Awdurdod Cyhoeddus os bydd yn penderfynu bod methu ag unioni'r niwed yn dorcyfraith ynddo'i hun (gan y byddai'r angen i unioni yn debygol o gael ei ystyried yn gyfraith amgylcheddol).

Lle nad yw'r angen i unioni wedi'i ymgorffori yn y gyfraith, gellid dibynnu ar swyddogaethau arweiniad a chynghor SLIAC neu gellid cyhoeddi adroddiad gwella.

Fel y trafodwyd yn y pwyllgor, nid yw'r Bil yn nodi pa mor bell yn ôl y gallai SLIAC fynd wrth ymchwilio i dorcyfraith. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn darparu amserlen o'r fath, a SLIAC fydd yn penderfynu beth sy'n briodol ac yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Dylid cofio bod y drefn reoleiddio yn dal i fod yn gyfrifoldeb i'r cyrff rheoleiddio presennol ac y bydd gan SLIAC rôl oruchwylio fwy cyffredinol. Felly, er enghraifft, os yw awdurdod cyhoeddus yn methu â defnyddio ei bwerau gorfodi (y mae llawer ohonynt yn ôl disgrisiwn) yn barhaus, gall SLIAC ddewis ymchwilio a chymryd camau gan ddefnyddio'r mecanweithiau heblaw hysbysiad cydymffurfio sydd ar gael yn y Bil, megis cyngor neu adroddiadau gwella.

Ymateb i Baragraff 126 yn y trawsgrifiad

Gweler y diagram yn Atodiad 2

Rydw i hefyd wedi darparu'r wybodaeth ychwanegol y mae'r Pwyllgor wedi gofyn amdani yn Atodiad 1

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Atodiad: Ymateb i gwestiynau tystiolaeth bellach y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) – Gorffennaf 2025

1. Yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd ym mis Medi 2021, argymhellwyd y canlynol: “Dylai Bil amgylcheddol a gyflwynir gan y Gweinidog yn y dyfodol ymdrin â materion datganoledig a geir ym Mil yr Amgylchedd Llywodraeth y DU, yn dilyn ymgynghoriad priodol â rhanddeiliaid.” Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. A allwch chi egluro a yw'r Bil yn mynd i'r afael â'r argymhelliad yn ein hadroddiad yn 2021 ac os felly, sut?

Yn ei [hymateb](#) i'ch adroddiad yn 2021, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd fod “mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon”, ac mae hyn yn dal i fod yn wir.

Ers hynny, mae mentrau polisi sylweddol, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol, wedi'u cyflwyno i adlewyrchu'r flaenoriaeth hon ochr yn ochr â chyfrifoldebau ehangach ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a diogelu iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 a Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024.

Bydd ychwanegu ein Bil at y dirwedd ddeddfwriaethol hon yn cefnogi ymhellach y canlyniadau amgylcheddol, iechyd ac economaidd sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a'r ddeddfwriaeth hon. Bydd yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- a. gwneud darpariaeth ynghylch egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd,
- b. cyflwyno corff goruchwyllo annibynnol i oruchwyllo cyfraith amgylcheddol, a
- c. chyflwyno fframwaith targedau bioamrywiaeth.

Mae Rhan 1 o'r Bil yn sefydlu amcan amgylcheddol ac yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol roi egwyddorion amgylcheddol ar waith ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.

Bydd sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLIAC) yn Rhan 2 yn allweddol wrth nodi diffygion a gwella hygyrchedd cyfraith amgylcheddol, ar hyd y llinellau a awgrymwyd yn eich argymhelliad.

Ar ben hynny, rydym wedi cydnabod bod y darpariaethau sy'n ymwneud â'r fframwaith targedau bioamrywiaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau sy'n gysylltiedig â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dyna pam y bydd y darpariaethau newydd hyn yn cael eu hymgorffori yn y Ddeddf honno, gan ddarparu ymagwedd gyflenwol a chyfannol at fioamrywiaeth sydd hefyd yn gwella hygyrchedd.

Y tymor hwn, rydym wedi canolbwyntio ar ganlyniadau amgylcheddol sy'n mynd i'r afael â'ch argymhelliad yn rhannol, ac mewn egwyddor. Fodd bynnag, rydym yn

ystyried deddfwriaeth ar gyfer y tymor nesaf sy'n canolbwyntio ar gywiro diffygion, cydgrynhoi darpariaethau a gwella hygyrchedd a systemau mewn cyfraith amgylcheddol.

2. Allwch chi egluro sut y bydd y ddyletswydd i roi sylw arbennig i'r egwyddorion yn gweithio'n ymarferol. Er enghraifft, pa brosesau fydd yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru i nodi polisi sydd â, neu a allai gael, unrhyw effaith ar yr amgylchedd, a sut y bydd Gweinidogion Cymru yn mynd ati i roi sylw arbennig i'r egwyddorion?

Mae'r ddyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru a CNC i roi sylw arbennig i'r egwyddorion, ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd, yn gymwys wrth lunio polisi mewn perthynas â Chymru sy'n cael, neu a allai gael, unrhyw effaith ar yr amgylchedd.

Mae hwn yn ofyniad cryf i roi sylw arbennig i'r egwyddorion ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd ac, fel y disgrifir yn y memorandwm esboniadol, mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a CNC roi 'cryn bwysigrwydd a phwys' i'r egwyddorion wrth lunio polisi. Mae'r ddyletswydd yn gymwys yn eang ar draws yr ystod lawn o bolisiâu Llywodraeth Cymru, nid polisiâu amgylcheddol yn unig.

Mae'r ddyletswydd "sylw arbennig" yn sicrhau bod egwyddorion amgylcheddol yn ymddangos yn amlwg wrth wneud penderfyniadau, ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i gydbwysu'r egwyddorion amgylcheddol ag ystyriaethau perthnasol eraill (e.e. iechyd y cyhoedd, costau) yn dibynnu ar y cyd-destun.

Mae hon yn rhwymedigaeth gryfach a mwy llym na "sylw dyladwy" neu "rhoi sylw".

O ystyried effaith y ddyletswydd, mae'n bwysig bod cwrddpas y ddyletswydd yn glir. Cyflawnir hyn drwy egluro bod y ddyletswydd yn gymwys pryd bynnag y bydd polisi'n cael, neu'n gallu cael, unrhyw effaith ar yr amgylchedd.

Ni fyddai'n gwneud synnwyr rhoi'r ddyletswydd ar waith wrth lunio polisi os nad oes effaith ar yr amgylchedd, gan na ellid rhoi cryn bwysigrwydd a phwys i'r egwyddorion amgylcheddol pan nad oes effaith amgylcheddol.

Dyna pam mae'r deddfwriaeth yn nodi'n glir nad oes gofyniad i roi'r ddyletswydd ar waith os nad yw polisi'n cael unrhyw effaith ar yr amgylchedd - ystyrir bod y senario hon yn debygol o fod yn anghyffredin.

Yn ymarferol, ychydig iawn o bolisiâu na fyddai'n cael unrhyw effaith o gwbl ar yr amgylchedd – er enghraifft, byddai'r mwyafrif helaeth o bolisiâu trafndiaeth yn cael effaith. Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion lle nad yw llunio polisi yn cael unrhyw effaith ar yr amgylchedd, ni fyddai'n briodol rhoi'r egwyddorion ar waith.

Mae'r ddyletswydd yn gymwys drwy gydol y broses o lunio polisi a bydd yn cael ei rhoi ar waith fesul achos. Bydd y broses o lunio polisi yn cael ei chefnogi gan y datganiad egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd, a fydd yn esbonio (ymhlith pethau eraill) sut y bydd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio

â'r ddyletswydd, a hefyd gan ganllawiau mewnol, hyfforddiant a phhecynnau cymorth polisi.

3. O dan adran 5 o'r Bil, rhaid i awdurdodau cyhoeddus ystyried yr egwyddorion amgylcheddol wrth gynnal asesiadau amgylcheddol strategol. Pa fecanweithiau atebolrwydd sydd yn y Bil i fonitro a yw awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon?

Fel yr esboniais yn fy ymateb i lythyr y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, mae'r dyletswyddau egwyddorion a osodir ar Weinidogion Cymru, CNC a rhai awdurdodau cyhoeddus eraill yn gryf ac yn glir. Yn ein barn ni, maent yn amlwg yn rhan o'r gyfraith amgylcheddol a fydd yn cael ei goruchwyllo gan SLIAC.

Os ystyrir, am ba reswm bynnag, fod Gweinidogion Cymru, CNC neu awdurdodau cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn, byddai hwn yn fater i SLIAC ei ystyried ac, os oes angen, ymchwilio, monitro ac, o bosibl, gymryd camau gorfodi yn erbyn yr awdurdod perthnasol.

4. Mae'r Gynghrair Werdd wedi awgrymu y dylid diwygio'r Bil:

- i. i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i barchu annibyniaeth SLIAC (gweler paragraff 17 o Atodlen 1 i Ddeddf Amgylchedd y DU 2021).
- ii. i egluro nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer cyfarwyddo mewn perthynas â SLIAC (yn debyg i baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021.)

Beth yw eich barn chi ar yr awgrymiadau hyn ac a allwch chi egluro pam eich bod chi'n anghytuno â nhw, os mai dyna'r achos?

- i. Credwn nad oes angen cynnwys y datganiad hwn. Mae'r Bil eisoes yn darparu ar gyfer annibyniaeth SLIAC ac ni fyddai datganiad ar hyd y llinellau hyn yn newid effaith y Bil gan ein bod o'r farn bod y mesurau ymarferol manwl rydym wedi'u rhoi ar waith drwy gydol y Bil yn dangos annibyniaeth SLIAC. Ar ben hynny, dylid nodi bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol fwy o swyddogaethau i'w harfer mewn perthynas â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) o gymharu â'r swyddogaethau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu harfer mewn perthynas â SLIAC. Er enghraifft, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i ddarparu arweiniad i OEP ar eu camau gorfodi, a bod rhaid i OEP wedyn "roi sylw" i'r arweiniad hwnnw. Yn ein barn ni, mae hyn yn arwain at ddadl gryfach dros gynnwys datganiad ar annibyniaeth ar y gweinidogion yng nghyd-destun y DU, oherwydd nifer y pwerau sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag OEP, yn hytrach na'r ffordd mae Bil Cymru wedi'i ddrafftio, sydd eisoes yn cyfyngu'n sylweddol ar y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â SLIAC. Serch hynny, rydym yn cydnabod y gall datganiad cadarn sy'n cadarnhau annibyniaeth SLIAC, fel y darperir ar ei gyfer yn y Bil eisoes,

weithiau fod yn ddefnyddiol a byddwn yn croesawu safbwyntiau'r pwyllgor ar hyn i lywio ein barn wrth symud ymlaen.

- ii. Fel gyda chwestiwn (i), nid ydym o'r farn bod angen gwneud darpariaeth benodol nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer cyfarwyddo. Dyma effaith y Bil mewn unrhyw achos. Nid yw'r Bil yn darparu unrhyw bŵer cyfarwyddo i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag SLIAC, a hynny'n fwrriadol, ac nid ydym o'r farn y gellid cyflwyno pŵer o'r fath. Ymhellach, mae yna achosion lle mae Gweinidogion Cymru wedi cael pŵer i gyfarwyddo. Er enghraifft, mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn caniatáu yn benodol i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i CNC ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau. Ni all Gweinidogion Cymru ddweud wrth SLIAC beth i'w wneud (neu beth i beidio â gwneud) gan nad oes darpariaeth i'w galluogi i wneud hynny. Felly, rydym o'r farn na fyddai angen egluro nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer cyfarwyddo mewn perthynas ag SLIAC ar wyneb y Bil.

5. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phwyllgor yn y Senedd cyn penodi cadeirydd a dirprwy gadeirydd SLIAC (paragraff 8(2) o Atodlen 1). Os bwriedir i hwn fod yn wrandawriad cyn penodi, pam nad yw'n nodi hynny ar wyneb y Bil, ac a ydych chi'n bwriadu ychwanegu'r rolau hyn at y rhestr o swyddi sy'n destun gwrandawiadau cyn penodi o dan y protocol y cytunwyd arno rhwng y Llywydd a Llywodraeth Cymru?

Mae'r gofyniad ymgynghori hwn yn cyflawni rôl debyg i'r weithdrefn gwrandawriad cyn penodi sydd ar waith ar gyfer rolau cyhoeddus arwyddocaol eraill, megis Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dylai'r pwyllgor nodi bod yr iaith a ddefnyddir yn debyg i'r iaith yn adran 17(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, nad yw'n nodi bod rhaid cynnal 'gwrandawriad cyn penodi' ond sy'n gosod gofyniad clir ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r pwyllgor perthnasol.

Ein bwriad yw ychwanegu'r rolau hyn at y rhestr o swyddi sy'n destun gwrandawiadau cyn penodi o dan y protocol.

Gan nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn defnyddio'r geiriad penodol "gwrandawriad cyn penodi", byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau pellach gan y pwyllgor os ydynt o'r farn bod y geiriad penodol hwn yn angenrheidiol yn y Bil hwn.

6. Gall SLIAC wneud cais i'r Uchel Lys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus gymryd unrhyw gamau a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio y mae wedi'i gyhoeddi. Beth yw'r sancsiynau posibl

i awdurdodau cyhoeddus os na fyddant yn cydymffurfio â gorchymyn yr Uchel Lys?

Mae'r atgyfeiriad cychwynnol i'r llys yn darparu i'r llys orfodi'r Hysbysiad Cydymffurfio drwy Orchymyn Llys (a gall y Llys amrywio'r Hysbysiad Cydymffurfio ei hun fel y gwêl yn dda neu ddewis peidio â gwneud Gorchymyn Llys).

Yna, os bydd yr Awdurdod Cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â'r Gorchymyn Llys sy'n gorfodi'r Hysbysiad Cydymffurfio, gellir gwneud cais i'r Llys i ganfod bod yr Awdurdod Cyhoeddus yn cyflawni dirmyg llys, neu gall y Llys benderfynu cychwyn yr achos hwn ei hun.

Mae amrywiaeth o sancsiynau ar gael os canfyddir dirmyg llys a fyddai wedyn ar gael i'r Llys, sy'n cynnwys cosbau ariannol.

7. Mae cyfraith amgylcheddol yn ddiffiniad allweddol yn y Bil. Mae'n cwmpasu deddfwriaeth sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd sydd wedi'i gwneud, neu a allai gael ei gwneud, gan y Senedd. A yw confensiynau a chytundebau rhyngwladol ar yr amgylchedd yn dod o fewn y diffiniad o 'gyfraith amgylcheddol' o dan y Bil?

Mae'r Bil yn cynnwys diffiniad o "gyfraith amgylcheddol" i ddarparu eglurder, gan fod swyddogaethau SLIAC yn dibynnu ar awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â "chyfraith amgylcheddol" a pha mor dda mae'r gyfraith hon yn cael ei gwneud, ei gweithredu a'i chymhwyso.

Mae'r diffiniad yn egluro bod cyfraith amgylcheddol yn ymwneud â "darpariaeth ddatganoledig" yn unig. Mae hyn wedi'i fframio i gynnwys unrhyw newidiadau yn y dyfodol a hefyd i sicrhau bod cyn lleied o orgyffwrdd â phosibl â swyddogaethau OEP.

Mae'r diffiniad yn nodi bod "cyfraith amgylcheddol" yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ddatganoledig sy'n "ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd." Mae hyn yn golygu y gall darpariaethau neu swyddogaethau penodol o fewn deddfiad fod yn gymwys, hyd yn oed os nad yw'r Ddeddf gyfan yn gymwys.

O fewn y cyd-destun hwnnw, mae cylch gwaith SLIAC yn gymwys i gyfraith amgylcheddol sydd wedi'i datganoli ac sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd. Mae hyn yn berthnasol i rwymedigaethau rhyngwladol lle mae'r polisi wedi'i ddatganoli.

Er enghraifft, mae confensiwn Aarhus yn gytundeb rhyngwladol cyfreithiol rwymol sydd wedi'i gadarnhau gan y DU ac sy'n sefydlu tair hawl amgylcheddol weithdrefnol graidd:

- Mynediad at wybodaeth amgylcheddol
- Y cyhoedd yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau amgylcheddol

- Mynediad at gyfiawnder mewn materion amgylcheddol

O ran rhoi'r hawliau craidd hyn ar waith yng Nghymru a lle mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly darpariaeth ddatganoledig, bydd SLIAC yn goruchwyllo'r materion hyn. SLIAC ei hun fydd yn penderfynu, fesul achos, a yw darpariaeth ddeddfwriaethol yn dod o dan y diffiniad hwn yn eu barn nhw. Felly, byddai angen i SLIAC sefydlu yn gyntaf a yw hyn yn dod o fewn cwrpas cyfraith amgylcheddol ac yna, os felly, gallu asesu ei effeithiolrwydd ac unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth.

Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl y byddai hyn yn syml ond, fel gyda phob terminoleg ddeddfwriaethol, mewn amser, a chyda thirwedd ddeddfwriaethol sy'n esblygu ar y pwnc hwn, efallai y bydd angen i'r llysoedd ddatrys unrhyw anghydfodau ynghylch y dehongliad o "gyfraith amgylcheddol" fel y'i diffinnir yn y Bil.

8. Wrth arfer ei swyddogaethau, bydd gofyn i SLIAC benderfynu fesul achos a yw deddfwriaeth yn gyfystyr â chyfraith amgylcheddol o dan y Bil. A ydych chi'n hyderus bod hyn yn ddichonadwy ymarferol? Er enghraifft, a yw'n rhesymol disgwyl i SLIAC orfodi'r gyfraith ac o bosibl ei chyfeirio at yr Uchel Lys ar sail ei asesiad ei hun ynghylch a yw darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd o dan adran 29(3)(b) o'r Bil?

Nid oes gennym unrhyw bryderon ynghylch dichonoldeb ac ymarferoldeb disgwyl i SLIAC ddefnyddio ei swyddogaethau a gorfodi'r darpariaethau. Mae'r amgylchedd yn faes datganoledig i raddau helaeth, ac mae wedi bod felly ers cryn amser felly mae dealltwriaeth dda ar y cyfan o'r hyn sydd wedi'i ddatganoli. Fel y soniwyd yn fy ateb i'r cwestiwn uchod, roeddem yn disgwyl y byddai asesiad SLIAC ynghylch a yw darpariaethau yn dod o fewn cwrpas cyfraith amgylcheddol yn syml (er ein bod yn cydnabod y gallai hyn newid gyda thirwedd ddeddfwriaethol sy'n esblygu).

Ymhellach, bydd Bwrdd SLIAC yn cynnwys arbenigedd sy'n cynnwys gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o gyfraith a pholisi amgylcheddol yng nghyd-destun y Bil, ac mae'r ystyr hwn o gyfraith amgylcheddol yn gysylltiedig yn benodol â darpariaeth ddatganoledig.

Ymhellach, disgwylir i SLIAC geisio cael mynediad at gyngor cyfreithiol ar gyfer materion o'r fath o ystyried yr ystod eang o bwerau gorfodi sydd ar gael i'r corff, fel mae awdurdodau cyhoeddus eraill yn ei wneud, er na ddarperir ar gyfer hynny yn benodol yn y Bil.

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ddarpariaeth ddatganoledig, felly mae'r un mater yn codi mewn perthynas ag OEP.

9. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer y pwerau is-ddeddfwriaeth o dan y Bil yn nodi, mewn achosion o ansicrwydd neu anghytundeb, y gallai fod angen i'r llysoedd benderfynu yn y pen draw a yw darpariaeth yn gyfystyr â 'chyfraith amgylcheddol'. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith hyn ar y system gyfiawnder?

Rydym yn hyderus bod y diffiniad o gyfraith amgylcheddol yn ddigon clir ac wedi rhoi enghreifftiau penodol yn y memorandwm esboniadol.

Mae'r [Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder](#), y cytunwyd arno gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn adlewyrchu ein barn mai ychydig iawn o effaith fydd ar y system gyfiawnder. Bwriedir i atgyfeiriadau i'r Llys, gan gynnwys ynghylch a yw darpariaeth yn gyfystyr â chyfraith amgylcheddol, gael eu gwneud fel dewis olaf unwaith y bydd yr holl ddulliau eraill o fynd i'r afael â methiant wedi'u harchwilio, gan gynnwys datrysiad anffurfiol (cyngor ac arweiniad), hysbysiadau gwybodaeth a hysbysiadau cydymffurfio, yn ogystal ag adroddiadau gwella.

10. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer o dan adran 29(4) o'r Bil i wneud rheoliadau sy'n nodi a yw darpariaeth o fewn y diffiniad o 'gyfraith amgylcheddol' ai peidio. Eglurwch pam mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol, ac a ydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio'n rheolaidd i nodi pa ddeddfwriaeth, neu rannau o ddeddfwriaeth, a ystyrir yn 'gyfraith amgylcheddol'.

Rydym wedi cynnwys diffiniad ar gyfer "cyfraith amgylcheddol" i ddarparu mwy o eglurder. Gall dadleuon ynghylch yr hyn a fyddai ac na fyddai o fewn cwmpas cyfraith amgylcheddol fod yn eang a chymhleth, gan gwmpasu meysydd fel ansawdd aer, dŵr, gwastraff, bioamrywiaeth a mwy.

Diben adran 29(4) yw darparu i Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, fecanwaith i ddiweddarau'r diffiniad o gyfraith amgylcheddol heb fod angen diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol bob tro, lle mae cyfiawnhad clir dros wneud hynny.

Bydd hyn yn galluogi'r Ddeddf i gael ei diogelu at y dyfodol ar gyfer tirwedd ddeddfwriaethol sy'n esblygu. Gan y bydd hyn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd ac ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth, nid yw'n rhywbeth y gallai Gweinidogion Cymru ei wneud yn unochrog, na disgwyl ei ddefnyddio'n rheolaidd. Yn nodedig, gellid defnyddio'r pŵer hwn hefyd i adlewyrchu'r amgylchiadau a gwmpesir gan gwestiwn 9: sef adlewyrchu canfyddiadau'r Llys.

11. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi, os caiff ei arfer, y byddai'r pŵer yn adran 29(4) o'r Bil yn cael ei ystyried yn "effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau'r Bil drwy ychwanegu, diwygio neu ddileu darpariaethau y gellir eu hystyried yn 'gyfraith amgylcheddol' at ddibenion y Ddeddf, ac sy'n cael effaith sylweddol ar gwmpas pwerau goruchwyllo'r Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol". I ba raddau y gellid defnyddio'r pŵer hwn i eithrio darpariaeth sydd ar hyn o bryd yn dod o dan y diffiniad o 'gyfraith amgylcheddol' fel y'i drafftwyd o dan y Bil?

Gellid defnyddio'r pŵer i eithrio'r ddarpariaeth bresennol a ystyriwyd yn gyfraith amgylcheddol cyn y pwynt hwnnw gan fod y pŵer yn weddol eang yn fwriadol, ac mae'n dweud y gall Gweinidogion Cymru ddarparu bod darpariaeth ddatganoledig o fewn, neu ddim o fewn, y diffiniad o gyfraith amgylcheddol.

Yn unol â'r ymatebion yng nghwestiwn 9 a 10, efallai y bydd hyn yn ofynnol neu'n fuddiol i adlewyrchu canfyddiadau'r llys os oedd unrhyw her ynghylch cwrdd cyfraith amgylcheddol. Mae'n werth ailadrodd, fodd bynnag, fod y pŵer yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd ac eto, ni all Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio'n unochrog.

12. Pam nad oes dyletswydd i ymgynghori â SLIAC mewn perthynas â rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 29(4)?

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth oni bai ei bod yn dechnegol neu nad yw'n gwneud diwygiadau sylweddol.

Rydym yn ymwybodol bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgynghori cyn gwneud is-ddeddfwriaeth yn un a wnaed gan Lywodraeth bresennol Cymru ac nad yw'n ddyletswydd statudol arni. Rydym yn ystyried ymhellach a allai'r disgwyliad hwn i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau gael ei gryfhau o fewn y Bil.

13. Mae'r diffiniad o 'awdurdod cyhoeddus' yn y Bil wedi'i ddiffinio drwy gyfeirio at Awdurdodau Datganoledig Cymru yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac amryw o gyrff eraill yn Atodlen 7B i'r Ddeddf. Sut wnaethoch chi benderfynu pa gyrff ddylai gael eu cynnwys o dan y diffiniad hwn, a pham nad yw wedi'i ddrafftio trwy gyfeirio at unrhyw gorff sy'n darparu swyddogaethau o natur gyhoeddus yng Nghymru?

Mae'r awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys o fewn cylch gwaith SLIAC gan y dull drafftio o fewn cwrdd deddfwriaethol y Senedd, cyn belled ag y bo modd. Mae hyn er mwyn lleihau'r gorgyffwrdd a'r dyblygu gyda sefydliadau eraill, fel OEP, a fydd yn gyfrifol yn fras am awdurdodau a gadwyd yn ôl.

Mae rhai cyrff sy'n darparu swyddogaethau o natur gyhoeddus yng Nghymru, fel y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Ystad y Goron, yn gyrff a gadwyd yn ôl, felly nid ydynt yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth wleidyddol yn yr un modd ag y bydd awdurdodau sydd wedi'u cynnwys o fewn cwrdd SLIAC.

Mae OEP yn bodoli i gwmpasu awdurdodau a gadwyd yn ôl a, phe bai unrhyw fwlch goruchwyllo yn codi, credwn y gellir mynd i'r afael â'r rhain drwy gydweithrediad rhwng SLIAC, OEP a'r awdurdodau cyhoeddus eu hunain.

14. Mae mwyafrif yr awdurdodau cyhoeddus o dan y Bil wedi'u rhestru yn Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i cyflwynwyd gan adran 157A. Fodd bynnag, o dan adran 157A, mae prawf statudol hefyd ar gyfer cyrff cyhoeddus ychwanegol i ffurfio Awdurdodau Datganoledig Cymru. Felly, a ydych chi'n fodlon bod cwrdd y diffiniad o 'awdurdodau cyhoeddus' o dan y Bil yn ddigon sicr, ac i ba raddau ydych chi'n disgwyl i gyrff cyhoeddus pellach fod yn gymwys fel 'awdurdodau cyhoeddus' o dan y prawf statudol?

Ydym, rydym yn fodlon bod y diffiniad o "awdurdodau cyhoeddus" yn ddigon sicr. Mantais y dull hwn yw ei fod yn symudol ei natur ac, os ychwanegir unrhyw gyrff

yn y dyfodol at y rhestr yn Atodlen 9A neu os ydynt yn bodloni'r amodau yn is-adran (2) o is-adran 157A (hynny yw, mae ei swyddogaethau'n arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig, ac yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl), byddent yn cael eu cynnwys o fewn goruchwyliaeth SLIAC.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn disgwyl i unrhyw gyrff cyhoeddus pellach ddod o dan y prawf statudol yn 157A(2), ond credwn ei bod yn ddoeth i ddiogelu cwrpas y pwerau yn y Bil at y dyfodol.

15. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i osod targedau mewn perthynas ag 'unrhyw fater' sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru. Yn wrthrychol, mae hwn yn bŵer eang iawn. Beth yw'r cyfyngiadau ar arfer y pŵer hwn?

Mae'r Bil yn cynnwys nifer o gyfyngiadau ar arfer y pŵer hwn. Ni chaiff Gweinidogion Cymru osod targed onid ydynt wedi eu bodloni y byddai ei gyrraedd yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru, yn benodol drwy un neu ragor o'r canlynol: cynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol, gwella gwydnwch ecosystemau neu gynyddu amrywiaeth enetig.

Mae yna hefyd gyfyngiadau ymarferol wedi'u hymgorffori yn y pŵer gosod targedau. Er enghraifft, rhaid i bob targed:

- Ddatgan safon wrthrychol fesuradwy i'w chyflawni,
- Bod yn gyraeddadwy (ac mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i'w chyflawni),
- A chynnwys dyddiad targed clir ar gyfer cyflawni.

Yn ogystal, ni ellir gosod targedau o dan y maes blaenoriaeth "lleihau llygredd" os gellid eu gosod hefyd gan Weinidogion Cymru mewn targedau ansawdd aer o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024, er mwyn osgoi dyblygu'r pwerau hynny.

16. Gellir dadlau bod y diwygiadau niferus a wnaed i adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gan adrannau 33-36 o'r Bil wedi'i gwneud yn llai hygyrch i'r darllenydd. Mae dau ddiffiniad ar wahân o 'awdurdod cyhoeddus' yn yr un adran at ddibenion gwahanol, a dyletswyddau ar wahân i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill mewn perthynas â'r un cynlluniau ac adroddiadau adran 6 heb benawdau clir. A ydych chi'n agored i ailystyried y diwygiadau a wnaed gan y Bil i adran 6 o Ddeddf 2016 gyda'r bwriad o'i gwneud yn fwy hygyrch ac yn ddarllenadwy?

Drwy ymgorffori'r fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rydym yn sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru yn cael ei chydgrynhoi o fewn un Ddeddf. Credwn fod y dull hwn yn gwella hygyrchedd a chydlyniant, gan osgoi'r angen i ddefnyddio mwy nag un offeryn deddfwriaethol.

Ers deddfu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd wedi newid. Mae hyn wedi dylanwadu ar ddrafftio'r Bil presennol. Er enghraifft, mae'r diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" yn adran 6(9) a (10) o Ddeddf 2016 yn adlewyrchu'r setliad datganoli ar yr adeg honno. Mewn cyferbyniad, mae'r diffiniad sydd bellach wedi'i gynnwys drwy adran 34(4) o'r Bil (yr adran 6(11) newydd arfaethedig o Ddeddf 2016) yn adlewyrchu cymhwysedd deddfwriaethol presennol y Senedd.

O dan y trefniadau datganoli presennol, mae rhai awdurdodau cyhoeddus—fel arfer y rhai sy'n gweithredu ar draws Cymru a Lloegr—bellach yn cael eu dosbarthu fel "awdurdodau a gadwyd yn ôl." Yn yr achosion hyn, mae'r Senedd angen cydsyniad Gweinidog y Goron i osod swyddogaethau ar gyrff o'r fath. Mae Ystad y Goron yn enghraifft o awdurdod a gadwyd yn ôl. Fodd bynnag, mae eithriadau i'r gofyniad hwn.

Nid oes angen cydsyniad Gweinidog y Goron ar rai awdurdodau a gadwyd yn ôl, megis ymgymeryddwyr dŵr a charthffosiaeth, a restrir ym mharagraff 9(6) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae angen cydsyniad ar eraill, gan gynnwys yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Ofwat a'r Rheolydd Hawliau Amrywogaethau Planhigion, gan na all y Senedd greu swyddogaethau arferadwy yn benodol mewn perthynas â nhw hebddo. Mae pob un o'r awdurdodau hyn wedi'u cynnwys o fewn diffiniad y Bil o "awdurdod cyhoeddus."

Mae'r diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" yn y Bil hefyd yn cynnwys awdurdodau datganoledig Cymru. O ystyried nifer y cyrff o'r fath a'r potensial ar gyfer newid sefydliadol—megis ailenwi, uno neu ddisodli—roeddem o'r farn ei bod yn anymarferol rhestru pob awdurdod yn unigol. Byddai gwneud hynny wedi arwain at ddarpariaeth hir ac anhyblyg y byddai angen ei diwygio'n aml.

Credwn fod y dull yn y Bil yn taro cydbwysedd priodol rhwng eglurder, ymarferoldeb a hyblygrwydd, yn enwedig o ystyried y cymhlethdodau dan sylw. Fodd bynnag, os yw'r Pwyllgor yn dymuno cynnig dull amgen sy'n mynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn yn fwy effeithiol, byddem yn croesawu'r cyfle i'w ystyried.

17. O dan yr adran 6C newydd, rhaid i Weinidogion Cymru osod rheoliadau drafft gyda thargedau bioamrywiaeth mewn ardaloedd blaenoriaeth o fewn tair blynedd o gael Cydsyniad Brenhinol. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd wedi nodi'n flaenorol bod yr amserlen arfaethedig hon yn "annerbyniol" a'i bod yn "destun pryder mawr". Beth yw'r cyfiawnhad dros y terfyn amser hwn?

18. A fyddai'n ymarferol cyflwyno rheoliadau drafft gyda thargedau yn gynt na hyn, ac a fydddech chi'n ystyried diwygiadau i'r perwyl hwnnw yng nghyfnod 2?

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynglŷn â'r amserlenni ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth. Fodd bynnag, fel y codais gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, mae hon yn broses gymhleth ac aml-gam sydd o reidrwydd yn cymryd amser i sicrhau trylwyrdd a hygyrddedd. Mae gwaith ar ddatblygu targedau eisoes yn mynd rhagddo yn gyflym ochr yn ochr â'r Bil.

Wedi dweud hynny, er mwyn cyflymu'r gwaith yn sylweddol, efallai y bydd angen cyfaddawdu ar ddyfnder neu ehangder datblygu targedau.

Un o elfennau allweddol y broses datblygu targedau yw profi a modelu senarios cynhwysfawr, sy'n ein helpu i werthuso gwahanol opsiynau polisi a deall sut y gallai amodau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd amrywiol effeithio ar ganlyniadau bioamrywiaeth. Rydym wedi comisiynu'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) i ymgymryd â'r gwaith modelu hwn. Yn gyffredinol, disgwylir i'r rhaglen waith hon gymryd 12 mis, ac mae'n cynnwys cyfres o becynnau gwaith olynol. Bydd y pecynnau gwaith hyn yn adeiladu ar allbynnau dilynol i ddarparu allbwn modelu terfynol.

Yn ogystal â'r gwaith modelu, rhaid i ni hefyd ganiatáu digon o amser ar gyfer y broses is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys cael cyngor annibynnol, cynnal asesiadau effaith integredig a rheoleiddiol (gan gynnwys dadansoddiad cost a budd), cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, drafftio deddfwriaeth, cael cymeradwyaeth y Senedd a pharatoi canllawiau gweithredu manwl. Gan ystyried yr holl ffactorau hyn - ochr yn ochr ag amseru etholiadau'r Senedd y flwyddyn nesaf - credwn fod amserlen tair blynedd yn realistig. Cadarnhawyd yr amserlen arfaethedig hon hefyd gan yr arbenigwyr academiaidd yn ystod sesiwn dystiolaeth gyntaf y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflwyno'r rheoliadau yn gynt os oes modd. O ystyried y cymhlethdodau a'r dibyniaethau dan sylw, byddem yn croesawu barn y Pwyllgor, fel rwyf wedi croesawu barn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, ar yr hyn y maent yn ei ystyried yn amserlen realistig a chyflawnadwy ar gyfer gosod y Rheoliadau.

19. Mae'r gofyniad penodol i gymryd camau i gyfrannu at gyrraedd y targedau bioamrywiaeth yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u 'dynodi' mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Pam nad yw'r Bil yn cynnwys dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â thargedau bioamrywiaeth?

O dan y fframwaith arfaethedig, Gweinidogion Cymru yn unig fydd yn gorfod cyflawni'r ddyletswydd statudol i gyrraedd targedau bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae'r Bil yn darparu pŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi awdurdodau cyhoeddus penodol i gyfrannu at gyflawni targedau penodol. Mae awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eisoes yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd bioamrywiaeth gyffredinol o dan adran 6(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a byddant yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau wrth arfer swyddogaethau yng Nghymru. Bwriad y ddyletswydd newydd i gyfrannu yw ategu'r ddyletswydd adran 6 bresennol hon drwy ddarparu mecanwaith ar gyfer cyflawni sydd wedi'i dargedu fwy ac sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Ei nod yw cynnig mwy o eglurder ar y cyfraniadau penodol y gall awdurdodau cyhoeddus dynodedig eu gwneud tuag at gyflawni canlyniadau bioamrywiaeth.

Rydym wedi cymryd agwedd gymesur a seiliedig ar dystiolaeth at y pŵer hwn. Ni fydd dynodiad ond yn cael ei ystyried pan fo awdurdod cyhoeddus mewn sefyllfa dda i wneud cyfraniad ystyrion at darged penodol drwy ei swyddogaethau presennol. Mae'r dull hwn yn cydnabod na fydd pob targed yn berthnasol i bob awdurdod—er enghraifft, ni fyddai disgwyl i awdurdod lleol tirgaeedig gyfrannu'n uniongyrchol at darged bioamrywiaeth morol. Rydym hefyd wedi bod yn ymwybodol o'r pwysau gweithredol ar awdurdodau cyhoeddus ac wedi adlewyrchu adborth rhanddeiliaid a gafwyd drwy'r ymgynghoriad Papur Gwyn. Rydym o'r farn bod y dull hyblyg hwn sydd wedi'i dargedu yn taro cydbwysedd priodol rhwng y manteision sy'n deillio o osod dyletswydd i gyfrannu a gosod beichiau ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus.

20. Rhaid ymgynghori â phob awdurdod cyhoeddus y cynigir ei ddynodi, ynghyd ag unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol. Mae hyd at 100 o gyrff cyhoeddus yn cael eu hystyried yn 'awdurdodau cyhoeddus' o dan y Bil. Pa gyfran o'r gyrff hyn ydych chi'n rhagweld y byddant yn cael eu dynodi?

Mae'n bwysig pwysleisio na fyddwn yn gwybod pa awdurdodau cyhoeddus sydd yn y sefyllfa orau i gyfrannu—na'r gyfran y gellir ei dynodi—nes bod y targedau eu hunain wedi'u datblygu yn fanwl. Bydd gan bob targed ofynion cyflawni gwahanol, a bydd perthnasedd awdurdodau cyhoeddus unigol yn amrywio yn unol â hynny.

Er enghraifft, mae targedau sy'n gofyn am reoli tir neu ecosystemau yn debygol o gynnwys ymgynghori ag awdurdodau sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir, megis awdurdodau parciau lleol a chenedlaethol, ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwaraeon Cymru, CADW a Trafnidiaeth Cymru. Bydd gwaith pellach yn ystod y cyfnod datblygu targedau yn darparu mwy o eglurder ar ba awdurdodau cyhoeddus all gyfrannu'n ystyrion at bob targed. Rydym wedi ymrwmo i ymgynghori ag awdurdodau cyhoeddus perthnasol fel rhan o'r broses ddynodi i sicrhau bod unrhyw ddyletswyddau a osodir yn gymesur, wedi'u targedu ac yn cyd-fynd â swyddogaethau presennol.

21. O dan y Bil, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y targedau bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni. Pam nad yw'r Bil yn gosod dyletswydd benodol ar SLIAC i fonitro a gorfodi'r rhwymedigaeth hon?

Mae Atodlen 2 i'r Bil yn nodi gofynion gweithredol allweddol ar gyfer SLIAC, gan gynnwys y rhwymedigaeth i fynegi o fewn ei strategaeth sut, wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 11 (monitro ac adrodd), y mae'n bwriadu monitro unrhyw dargedau amgylcheddol a osodir gan neu o dan gyfraith amgylcheddol. Mae'r strategaeth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, sy'n cyflwyno haen bwysig o dryloywder ac atebolrwydd. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y SLIAC yn gweithredu fel corff gwirioneddol annibynnol, rhaid sicrhau nad yw'n cael unrhyw gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru nac unrhyw barti arall.

Mae targedau amgylcheddol statudol yn rhan bwysig o'r dirwedd ddeddfwriaethol, ac rydym yn disgwyl y bydd SLIAC yn dymuno ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau gorfodi pan fo pryderon yn codi ynghylch eu cyflawni. Wedi dweud hynny, rydym wedi bod yn ofalus i beidio â rhagnodi sut y dylai SLIAC gyflawni ei

swyddogaethau. Fel corff annibynnol o arbenigwyr, SLIAC sydd yn y sefyllfa orau i bennu ei blaenoriaethau ei hun. Os yw'n ystyried bod unrhyw dargedau statudol, nid targedau bioamrywiaeth yn unig, yn haeddu sylw, nid oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth i'w hatal rhag gwneud hynny. Credwn fod y dull hwn yn parchu'r egwyddor o annibyniaeth wrth sicrhau bod y pwerau a'r tryloywder angenrheidiol ar waith i gefnogi llywodraethiant amgylcheddol effeithiol.

Ar ben hynny, rydym yn deall bod y dull hwn o ddiogelu annibyniaeth y corff i ddewis pa rwymedigaethau statudol y mae'n eu hystyried, mewn cydbwysedd â'i adnoddau, wedi'i gefnogi gan y dystiolaeth a roddwyd gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, Environmental Standards Scotland ac Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru pan ddaethant gerbron y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn gynharach y mis hwn.

Ar wahân i SLIAC, mae mesurau yn y Bil i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn monitro ac yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd tuag at gyrraedd y targed, er enghraifft, drwy'r adroddiadau adran 6 diwygiedig y mae'n rhaid eu paratoi bob tair blynedd. Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru na fydd targed yn cael ei gyrraedd, rhaid iddynt adolygu'r targed hwnnw (sy'n cynnwys cael cyngor arbenigol annibynnol) a gosod datganiad gerbron y Senedd yn nodi eu casgliadau. Mae hyn yn golygu y bydd cynnydd tuag at gyrraedd y targedau yn broses dryloyw ac yn agored i'r Senedd graffu arni (yr adran 6G newydd arfaethedig).

22. Bydd y gofyniad i osod targedau bioamrywiaeth yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yn y seithfed Senedd. Fel y'u drafftwyd, gellid bodloni'r gofynion bioamrywiaeth yn y Bil drwy osod rheoliadau yn 2029 yn gosod pedwar targed yn unig heb unrhyw ofyniad i ddynodi unrhyw awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â thargedau o'r fath. Ydych chi'n fodlon bod hyn yn ddigon cadarn, ac os felly, pam?

Ydym, rydym yn fodlon bod y Bil yn ddigon cadarn. Yn ogystal â'r fframwaith targedau bioamrywiaeth newydd, mae'r Bil yn adeiladu ar ddyletswyddau presennol Gweinidogion Cymru (ac unrhyw awdurdodau cyhoeddus a ddynodwyd i gyfrannu at dargedau bioamrywiaeth), ac yn eu cryfhau, i gefnogi'n well ymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfwng natur yng Nghymru. Mae'r darpariaethau bioamrywiaeth yn canolbwyntio ar sefydlu targedau statudol a fydd yn sbarduno camau i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, gan helpu i roi natur ar lwybr adferiad er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Fodd bynnag, dim ond un elfen o ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd yw'r Bil. Ni ddylid ei ystyried ar wahân, gan ei fod yn ategu ystod eang o fesurau polisi a deddfwriaethol presennol.

Mae'r pŵer gosod targedau yn y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth y tu hwnt i'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer y meysydd blaenoriaeth a nodwyd, gan sicrhau bod y fframwaith yn parhau i fod yn ymatebol i heriau sy'n dod i'r amlwg. O ystyried yr anhawster i ragweld holl sbardunau colli bioamrywiaeth yn y dyfodol, mae'r hyblygrwydd hwn yn hanfodol i gynnal perthnasedd hirdymor y Bil. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer adolygu targedau i sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi ein nod cyffredinol o atal a

gwrthdroi colli bioamrywiaeth. Yn y mecanwaith hwn mae gofyniad i Weinidogion Cymru nodi sut y bydd y targedau, os cânt eu cyflawni, yn cyfrannu at atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth. Mae disgwyl i Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang y Cenhedloedd Unedig, sydd wedi llywio datblygiad y meysydd blaenoriaeth, gael ei adolygu yn 2030. Bydd hyn yn rhoi cyfle amserol i ystyried a oes angen targedau pellach sy'n cyd-fynd ag unrhyw flaenoriaethau byd-eang newydd.

Er nad yw'r Bil yn gosod dyletswydd i ddynodi awdurdodau cyhoeddus, bydd gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i gyrraedd y targedau a osodwyd ganddynt. Ynghyd â darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â monitro ac adrodd ar dargedau (a drafodwyd yn gynharach), mae hyn yn creu cymhellant cryf i ddynodi awdurdodau cyhoeddus lle maent mewn sefyllfa dda i gyfrannu'n ystyrlon at gyflawni targedau. Mae'r angen i weithredu ar y cyd, ynghyd â'r ddyletswydd statudol ar Weinidogion, yn darparu mecanwaith clir i lywodraethau'r dyfodol fanteisio ar alluoedd awdurdodau cyhoeddus mewn ffordd gymesur a strategol.

23. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y Bil yn helpu i weithredu'r ymrwymadau a nodir yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE. A wnewch chi ymhelaethu ac esbonio sut y bydd y Bil yn gwneud hyn?

Mae'r rhaglith i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (y "TCA") rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd yn cydnabod ymrwymiad y partïon i safonau uchel o ran diogelu'r amgylchedd (ac i ymdrechu i barhau i wella'r safonau hynny) a'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd. Mae darpariaeth sy'n berthnasol i'r amgylchedd yn rhan o'r TCA ar ystod eang o feysydd, gan gynnwys newid hinsawdd, ansawdd aer, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Yn hyn o beth, mae'r canlyniadau polisi arfaethedig ar gyfer y Bil hwn yn cefnogi'r ymrwymadau hyn. Er enghraifft, mae'r amcan amgylcheddol yn llywio'r egwyddorion a SLIAC i gyfrannu at "gyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r amgylchedd". Gallai SLIAC hefyd ddewis adolygu a yw Gweinidogion Cymru wedi mynd i'r afael â'r ddyletswydd i roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol.

Mae Rhan 2, Pennawd 1, Teitl XI, Pennod 7 o'r TCA yn gwneud darpariaeth benodol am yr amgylchedd. Mae pob parti yn cytuno i beidio â gwanhau na lleihau, mewn modd sy'n effeithio ar fasnach neu fuddsoddiad rhwng y partïon, ei lefelau diogelu'r amgylchedd neu ei lefelau diogelu'r hinsawdd yn is na'r lefelau sydd ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio, gan gynnwys drwy fethu â gorfodi ei gyfraith amgylcheddol neu ei lefelau diogelu'r hinsawdd yn effeithiol (Erthygl 391). Bydd cyflwyno SLIAC fel corff annibynnol sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, gan gynnwys gorfodi cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, yn cefnogi'r ymrwymiad hwn yn uniongyrchol.

Mae'r DU a'r UE hefyd yn ymrwymo i barchu'r egwyddorion amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol y maent wedi ymrwymo iddynt, yn benodol:

- yr egwyddor y dylid integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth wneud polisiau, gan gynnwys drwy asesiadau effaith;
- yr egwyddor ataliol i atal difrod amgylcheddol;
- y dull rhagofalus y cyfeirir ato yn Erthygl 356(2)

- yr egwyddor y dylid rhoi blaenoriaeth i gywiro unrhyw ddifrod amgylcheddol yn y ffynhonnell; ac
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu (Rhan 2, Pennawd 1, Teitl XI, Erthygl 393)

Mae Rhan 1 o'r Bil yn cefnogi'r ymrwymiad hwn yn uniongyrchol drwy wneud darpariaeth am egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys dyletswyddau i roi'r egwyddorion ar waith wrth lunio polisi neu ymgymryd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol (fel sy'n berthnasol).

Agenda 2030 yr UN ar gyfer Datblygu Cynaliadwy 2015

17 Nod

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nodau Llesiant, Cerrig Milltir a Dangosyddion Cenedlaethol

--- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ---

Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Rhan 2 OEGW – goruchwylio cyfraith a thargedau amgylcheddol
Rhan 3 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf EWA* 2016 – yn sefydlu fframwaith targedau bioamrywiaeth

Cytundeb yr UN o dan UNFCCC
Cytundeb Paris 2015
cyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C

Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal yr UN 2022

Gweledigaeth fyd-eang o fyd sy'n byw
mewn cytgordd â natur erbyn 2050
4 nod ar gyfer 2050 a 23 targed ar gyfer
2030

Deddf yr Amgylchedd (Cymru)

2016 – Rhan 1 – SMNR a

Bioamrywiaeth

Mae Bioamrywiaeth A6 yn targedu atal
a gwrthdroi colli bioamrywiaeth

Polisi Adnoddau Naturiol

- Dangos cyflawni yn erbyn egwyddorion amgylcheddol (Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru))
- Arweiniwyd gan yr **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)**
- Yn adlewyrchu **Datganiadau Ardal** gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Deddf yr Amgylchedd (Cymru)

2016

Rhan 2 – Yr hinsawdd

Targed allyriadau 2050

Targedau interim – 2020, 2030,
2040

Targedau a Deddfwriaeth

Mae amcanion amgylcheddol, targedau a dangosyddion Cymru wedi'u hymgorffori mewn cyfres gymhleth o offerynnau deddfwriaethol a fframweithiau strategol sydd, gyda'i gilydd, yn cefnogi cyflawni ymrwymïadau cenedlaethol a rhyngwladol. Gan gynnwys:

Bioamrywiaeth: Mae Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn sefydlu targedau bioamrywiaeth statudol a chorff goruchwylio (OEGW), gan ddiwygio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i atgyfnerthu dyletswyddau Adran 6

Ansawdd Aer: Mae Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 yn gorfodi targedau cyfreithiol rwyngol ar gyfer PM2.5 a llygryddion eraill, gyda dyddiadau cau fesul cam hyd at 2030

Newid yn yr Hinsawdd: Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod targed sero net erbyn 2050, gyda chyllidebau carbon interim a dyletswyddau ar Weinidogion i weithredu

Ansawdd Dŵr Wedi'i reoli o dan gyfraith yr UE a ddargedwir (e.e. Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, gydag CNC ac awdurdodau lleol yn gyfrifol

Rheoli Tir yn Gynaliadwy: Cyflwynodd Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 amcanion SLM gyda dangosyddion a thargedau cysylltiedig sy'n gysylltiedig â'r dangosyddion

Morol: Mae Strategaeth Forol y DU a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn gosod targedau ar gyfer statws amgylcheddol da ym moroedd Cymru

Yr Economi Gylchol: Mae Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn cefnogi lleihau gwastraff; nid yw targedau gwastraff bwyd yn ddeddfwriaethol ond maen nhw'n cyd-fynd â nodau cynaliadwyedd ehangach

Sefydliad Iechyd y
Byd

Mae gan bob
set o
dargedau eu
gofynion
adrodd a
monitro eu
hunain

*OEGW – Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

*EWA – Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

*SMNR – Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

*SLM – Rheoli Tir yn Gynaliadwy